



Darganfod eich llais

Hyder yn y gymuned

Mewn partneriaeth â



Credwch
mewn plant
 Barnardo's
Cymru

the 1990s, the number of people in the UK who are employed in the public sector has increased by 1.5 million (from 2.5 million in 1980 to 4 million in 1999). The public sector has also become an important employer of people with disabilities. In 1999, 1.5 million people with disabilities were employed in the public sector, compared with 1.2 million in 1980 (Department of Social Security 2000).

There is a growing awareness of the need to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society. This has led to a number of initiatives aimed at improving the lives of people with disabilities. One of the most important of these is the Disability Discrimination Act (1995), which aims to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society.

The Disability Discrimination Act (1995) is a landmark piece of legislation in the UK. It aims to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society. The Act covers a wide range of areas, including employment, education, and access to public services. It also sets out the duties of employers, service providers, and public bodies to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society.

The Act has led to a number of initiatives aimed at improving the lives of people with disabilities. One of the most important of these is the Disability Discrimination Act (1995), which aims to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society. The Act covers a wide range of areas, including employment, education, and access to public services. It also sets out the duties of employers, service providers, and public bodies to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society.

The Act has led to a number of initiatives aimed at improving the lives of people with disabilities. One of the most important of these is the Disability Discrimination Act (1995), which aims to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society. The Act covers a wide range of areas, including employment, education, and access to public services. It also sets out the duties of employers, service providers, and public bodies to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society.

The Act has led to a number of initiatives aimed at improving the lives of people with disabilities. One of the most important of these is the Disability Discrimination Act (1995), which aims to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society. The Act covers a wide range of areas, including employment, education, and access to public services. It also sets out the duties of employers, service providers, and public bodies to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society.

The Act has led to a number of initiatives aimed at improving the lives of people with disabilities. One of the most important of these is the Disability Discrimination Act (1995), which aims to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society. The Act covers a wide range of areas, including employment, education, and access to public services. It also sets out the duties of employers, service providers, and public bodies to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society.

The Act has led to a number of initiatives aimed at improving the lives of people with disabilities. One of the most important of these is the Disability Discrimination Act (1995), which aims to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society. The Act covers a wide range of areas, including employment, education, and access to public services. It also sets out the duties of employers, service providers, and public bodies to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society.

The Act has led to a number of initiatives aimed at improving the lives of people with disabilities. One of the most important of these is the Disability Discrimination Act (1995), which aims to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society. The Act covers a wide range of areas, including employment, education, and access to public services. It also sets out the duties of employers, service providers, and public bodies to ensure that people with disabilities are able to participate fully in society.

Cynnwys

Rhagarweiniad	5
Gwybodaeth gefndir a chydabyddiaeth	6
Sut allwch chi ddefnyddio'r pecyn hwn yn eich ysgol?	8
Beth fyddwch chi'n ei gael o'r prosiect hwn?	10
Pam defnyddio'r pecyn hwn? Pwysigrwydd llais y disgybl	11
Darganfod Eich Llais a'r cwricwlwm newydd	13
Mwy o resymau fyth i ddefnyddio'r pecyn hwn	15
Golwg byr ar y sesiynau	17
Sesiwn 1 – Gwybod Eich Hawliau!	22
Sesiwn 2 – Pynciau Llosg	35
Sesiwn 3 – Amser Penderfynu!	39
Sesiwn 4 – Cwest Cwestiynau	49
Sesiwn 5 – Pa Arolwg?	55
Sesiwn 6 – Dadansoddi'r Atebion	59
Sesiwn 7 – Dadansoddi Data	63
Sesiwn 8 – Rhannu'r Canlyniadau!	73
Sesiwn 9 – Cyflwyno Creadigol	81
Sesiwn 10 – Dangos eich Hun!	85
Gweithgaredd torri'r rhew – Dod o hyd i rywun...	89
Gweithgaredd torri'r rhew – Cyfarfod a chymysgu	90
Gweithgaredd torri'r rhew – Taith gryfderau	91
Gweithgaredd torri'r rhew – Ras grocodeil!	92
Gweithgaredd torri'r rhew – I'ch llinellau!	93
Gweithgaredd torri'r rhew – Ysgwn i pwy?	94

Gweithgaredd torri'r rhew – Gwe o gwestiynau	95
Gweithgaredd torri'r rhew – Barn y papurau!	97
Gweithgaredd torri'r rhew – Hunan-bortread	98
Gweithgaredd torri'r rhew – Choeliwch chi byth!	99
Deg gorau – Syniadau arolwg	101
Deg Gorau – Dulliau pleidleisio	102
Deg Gorau – Ffyrdd o gyflwyno eich canfyddiadau	104
Deg Gorau – Gyda phwy i rannu'r canlyniadau	105
Deg Gorau – Cyfathrebu canlyniadau eich ymgynghoriad	106
Mynegai eiconau	107
Llyfryddiaeth ac adnoddau pellach	108
Atodiad 1 – Enghraifft o gyflwyno'r canlyniadau - Millbrook	110
Atodiad 2 – Enghraifft o holiadur - Millbrook	111
Atodiad 3 – Enghraifft o ganlyniadau arolwg - Pillgwenlly	117
Atodiad 4 – Nodyn pwysig am ganiatâd gan gyfranogwyr, a thempled	123

Rhagarweiniad

Cafodd y pecyn yn eich dwylo ei greu ar gyfer plant yng Nghasnewydd a gan blant yng Nghasnewydd fel rhan o gynllun peilot arloesol gan raglen Plant yn Gyntaf.

Pwrpas y pecyn yw ei ddefnyddio gyda phlant Cyfnod Allweddol 2 i'w helpu i gyflawni prosiect ymchwil a gweithredu yn eu hysgol er mwyn newid pethau yn eu hysgol neu gymuned leol sy'n bwysig iddynt.

Dyluniwyd y pecyn i fod mor ddidrafferth a hawdd ei ddefnyddio â phosib. Mae 10 o sesiynau, pob un gydag adnoddau cynorthwyol y gallir eu hargraffu neu lungopio. Mae pob sesiwn wedi'i chynllunio i bara tua awr ond gallir yn hawdd eu gwneud yn hirach neu'n fyrrach i ateb eich pwrpas.

Mae'r 'rithffurfiau' a welwch drwy'r pecyn yn cynrychioli pob un o'r plant a fu'n rhan o greu'r pecyn hwn. Creodd bob unigolyn ei 'rithffurf' ei hun gan ddylunio'r holl waith graffeg ac eiconau sy'n ymddangos ar y tudalennau canlynol. Hefyd, cadwch lygad allan am ein 'deg gorau' – rhestrau i'ch helpu i feddwl am syniadau.

Rydyn ni wedi dylunio'r sesiynau fel y gallwch hwyluso'r prosiect yn eich ysgol chi. Er hynny rydyn ni'n ymwybodol y bydd gwahanol ffocws ym mhob ysgol ac y bydd y plant yn mynd â'r prosiect i wahanol gyfeiriadau. Rydyn ni wedi cadw hyn mewn cof wrth ysgrifennu cynlluniau'r sesiynau ac wedi cynnwys elfen o hyblygrwydd fel y gallwch eu teilwrio fel bo angen.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau defnyddio'r pecyn gymaint ag i ni fwynhau ei greu!

“Fy hoff beth oedd chwarae gemau a chael hwyl.”

Teagan



Gwybodaeth gefndir

Beth yw Plant yn Gyntaf ac o ble y daeth y pecyn hwn?

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw Plant yn Gyntaf sy'n ceisio annog y gymuned leol a sefydliadau lleol i weithio gyda'i gilydd i ateb anghenion penodol plant a phobl ifanc yn yr ardal honno. Nod Plant yn Gyntaf yw lleihau'r anghydraddoldebau a wynebwr gan rai plant a phobl ifanc o'i gymharu â chyfoedion mewn ardaloedd mwy breintiedig. Mae gweithio gyda phlant sydd wedi dioddef ACE (Profiadau Andwyol mewn Plentyndod) yn flaenoriaeth i atal y profiadau hyn yn y tymor hirach ac i liniaru eu heffaith.

Mae Casnewydd yn un o bum ardal arloesol Plant yn Gyntaf ac mae Barnardo's wedi bod yn cydweithio gydag ysgolion cynradd Pillgwenlly a Millbrook i gyflwyno'r rhaglen.

Beth wnaethon ni? (Cam Un)

Yng Nghasnewydd, drwy Plant yn Gyntaf, rydyn ni wedi canolbwyntio ar roi llais i blant a'u hannog i gyfrannu at wneud penderfyniadau. Fel rhan o hyn, aeth Barnardo's ati i hyfforddi grŵp o blant o'r ysgolion uchod i fod yn ymchwilwyr ac i arwain eu prosiect eu hunain i gyflwyno newid yn eu cymunedau. Cyflwynwyd y prosiect yn llwyr dan arweiniad y plant gyda'r ffocws ar geisio ateb y problemau a godwyd ganddynt ac yn y ffordd yr oedden nhw eisiau gwneud hynny.

“Byddwn yn hoffi pe bai mwy o ysgolion a phobl bwysig yn rhan o Plant yn Gyntaf.”

Mehreen

Beth ddigwyddodd nesaf? (Cam Dau)

Ers cwblhau'r ddau brosiect llwyddiannus hwn, rydyn ni wedi troi ein sylw at gasglu'r profiadau a'r gwersi a ddysgwyd, eu cofnodi ar bapur a chreu pecyn ymarferol, syml a chreadigol fel y gall pob ysgol gynradd yng Nghasnewydd wneud yr un peth. Ni allwn roi cyfle i bob plentyn gael ei hyfforddi fel ymchwilwyr fel yn y ddwy ysgol arloesol. Ond drwy athrawon Darganfod Eich Llais, ein nod yw darparu'r adnoddau a'r dulliau fel y medrant gynorthwyo plant i gyflawni eu prosiect ymchwil eu hunain yn eu hysgolion, Mae'r pecyn yn cynnig strwythur, cynlluniau sesiynau ac adnoddau y gellir eu defnyddio mewn unrhyw ysgol gynradd. Ond eto, oherwydd ei fod dan arweiniad plant, bydd thema pob prosiect, eich dull o weithio, sut y byddwch yn cyflwyno'r canfyddiadau ac i bwy, a hefyd y canlyniad, yn wahanol ym mhob ysgol.

Cydnabyddiaeth

Dymunwn ddiolch i lawer iawn o bobl am wneud *Darganfod Eich Llais* yn bosib.

Yn gyntaf oll, diolch i'r plant oherwydd hebddynt ni fyddai hyn wedi bod yn bosib. Mae eich syniadau gwyh, eich brwdfrydedd a'ch ymroddiad i'r prosiect wedi bod yn ysbrydoliaeth.

Annais
Caitlin
Libby
Mehreen
Ousman
Teagan

Diolch i staff Ysgol Gynradd Millbrook ac Ysgol Gynradd Pillgwenlly am fod yn bartneriaid gyda ni yn y prosiect hwn ac am ein croesawu i gymuned eu hysgol. Yn enwedig, diolch i: Lindsey Watkins; Jodie Drew; Kathryn Bevan a Kath Powell

Diolch i Tim Ruscoe ac Elaine Speyer o Barnardo's Cymru am gwblhau'r prosiectau ymchwil Cam Un, am hyfforddi'r plant i fod yn ymchwilwyr ac am eu cymorth gyda chreu'r pecyn hwn.

Diolch i staff Save the Children am eu mewnbwn yng nghamau cychwynnol y prosiect.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau defnyddio'r pecyn hwn yn eich ysgol, a drwyddo gallwn helpu plant Casnewydd i ddarganfod eu llais!

Rhys Benjamin a Jon Hilder,
Gwanwyn 2019



Sut allwch chi ddefnyddio'r pecyn yn eich ysgol chi?

Dyluniwyd y pecyn i fod yn hyblyg a hawdd i'w addasu gan ddibynnu ar gyd-destun eich ysgol.



Bydd yn edrych yn wahanol ym mhob un ysgol.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer sut i weithredu'r pecyn yn eich ysgol chi:

- Fel rhan o ddiwrnod thematig ar gyfranogiad neu hawliau plant
- Prosiect i gyngor yr ysgol neu i'r clwb Eco
- Fel clwb newydd ar ôl ysgol
- Fel rhan o'r cwricwlwm, gan gysylltu â llythrennedd a rhifedd
- Fel prosiect pontio i ddisgyblion Blwyddyn 6 wrth baratoi am yr ysgol uwchradd
- Drwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

“Drwy Darganfod Eich Llais, dysgais fod barn plant yr un mor bwysig â barn oedolion.”

Mehreen



Astudiaethau Achos

Bydd yn edrych yn wahanol yn eich ysgol chi, ond er mwyn rhoi enghraifft dyma drosolwg byr ar sut y gweithiodd ym Millbrook a Pillgwenlly.


Prosiect Ysgol Gynradd Millbrook

- Grŵp bach o blant Blwyddyn 5.
- Rhoi holiadur papur i holl blant yr ysgol.
- Ffocws: gollwng sbwriel, baw cŵn ac ailgylchu.
- Creu cyflwyniad ar ffurf jigso a strided comic i ddangos y problemau.
- Y gynulleidfa darged a ddewiswyd: y gymuned ysgol, pobl sy'n penderfynu pethau'n lleol, ac Aelodau Cynulliad.



Prosiect Ysgol Gynradd Pillgwenlly

- Grŵp bach o blant Blwyddyn 5 / 6.
- Holiadur electronig, ar gael i'r plant ar-lein.
- Ffocws: gwasanaethau a darpariaeth yn y gymuned leol.
- Creu cyflwyniad drwy gynhyrchu drama ar ffurf adroddiad newyddion wedi'i droi'n fideo.
- Y gynulleidfa darged a ddewiswyd: pobl sy'n penderfynu pethau'n lleol, a gwleidyddion.



Beth fyddwch chi'n ei gael o'r prosiect hwn?

Cyflawni prosiect
ymchwil weithredu

Bod yn ymchwilydd!

Dylunio ymgynghoriad

Gwneud arolwg

Dewis eich cynulleidfa
darged

Cyflwyno eich
canfyddiadau


Mynnu cael eich
clywed!

Cyflwyno newid go
iawn sy'n bwysig i chi



***"Fe helpodd fi i fod
yn fwy hyderus."***

Ousman



***"Fe helpodd fi i
adnabod fy hun yn
well a gwybod beth
yw fy niddordebau."***

Caitlin



***"Byddwn yn
argymhell bod plant
eraill yn gwneud
hyn oherwydd
gallwch wneud
ffrindiau newydd."***

Annais

Pam defnyddio'r pecyn hwn?

Pwysigrwydd llais y disgybl


Ysgol Hart

Wrth galon y pecyn hwn mae'r dymuniad i roi llais ystyrion go iawn i blant yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Rydyn ni eisiau eich herio i drosglwyddo pŵer o'r oedolion i'r plant yn eich ysgol.

Pa mor ystyrion yw cyfranogi yn eich ysgol chi? Mae model ysgol ddylanwadol Roger Hart yn categoreiddio lefelau cyfranogi gan fesur lle'r ydyn ni nawr a lle'r ydyn ni eisiau bod. Drwy'r pecyn hwn rydyn ni eisiau eich ysbrydoli a rhoi help llaw i chi fynd i ben yr ysgol!

“Rwyf wedi dysgu bod plant yn haeddu cael llais”

Ousman



Dan arweiniad pobl ifanc. Rhannu penderfyniadau gydag oedolion.

Dan arweiniad a chyfarwyddyd pobl ifanc

Dan arweiniad oedolion. Rhannu penderfyniadau gyda phobl ifanc.

Lleisio barn a derbyn gwybodaeth

Rôl benodol a derbyn gwybodaeth

CYFRANOGIAD

Symbolaidd

Addurn

Cam-ddylanwadu

DIM CYFRANOGIAD

Addaswyd o: HART, R. (1992) Children's participation: From tokenism to citizenship, Florence: Canolfan Ryngwladol Datblygiad Plant

Yn ôl Erthygl 12 o'r **UNCRC** (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) mae gan blant hawl i **gyfranogi neu gymryd rhan yn y penderfyniadau** sy'n effeithio arnynt, i gael eu clywed a chael eu cymryd o ddifrif.

Yng Nghymru mae 7 o safonau cyfranogi sy'n ganllaw i arferion gorau a sicrhau ein bod yn **gwrando ar ac yn ymateb i** blant a phobl ifanc yn y ffordd fwyaf ystyrlon bosib.

Mae'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol yn ganllaw i'r ffyrdd gorau a mwyaf ystyrlon o wrando ar, ac ymateb i leisiau plant a phobl ifanc, yn unol ag Erthygl 12 o'r UNCRC.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn pwysleisio bod **cynnwys** pobl ifanc yn effeithiol yn eu cymunedau yn ganolog i'r broses o wella lles.

O dan **Reoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) (2005)** rhaid i ysgolion roi **'cyfle i ddisgyblion gael trafod a gwneud sylwadau** ar bethau sy'n ymwneud â'r ysgol neu ar faterion eraill sy'n bwysig iddyn nhw'

Mae **ESTYN** wedi nodi'n glir **pa mor greiddiol bwysig yw llais y disgybl** mewn gwthio gwelliannau ymlaen mewn ysgolion. Yn Ysgol Gynradd Glan Wysg yng Nghasnewydd, mae pwyslais ar lais y disgybl wedi arwain at wella lles y disgyblion a'r safonau addysgu a dysgu.

Roedd **adroddiad thematig arall gan ESTYN** ar gyfer ysgol Gynradd Glasllwech yng Nghasnewydd wedi dangos y manteision o adael i'r plant gyfrannu at benderfyniadau a chael **chyfranogiad ystyrlon** yn yr ysgol.

“Rwyf wedi dysgu nad oedolion yn unig sydd â llais, mae gan blant lais hefyd”

Annais



Darganfod Eich Llais a'r cwricwlwm newydd

Gyda chyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, bydd yr holl ffordd o weithio gyda phlant a phobl ifanc yn newid.

Wrth ddatblygu Darganfod Eich Llais, rydyn ni wedi meddwl yn ofalus am sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd er mwyn: a) ei fod yn adnodd perthnasol i ysgolion a b) ein bod yn adeiladu ar yr arferion gorau sy'n digwydd eisoes.

Drwy *Darganfod Eich Llais* bydd plant a phobl ifanc:

- yn dysgu sgiliau y medrant eu defnyddio mewn sefyllfaoedd go iawn.
ENGHRAIFFT: rhoi cyflwyniad i gynulleidfa
- gydag adnoddau i fyw bywyd, gan eu dysgu i fod yn 'bobl foesol a gwybodus'.
ENGHRAIFFT: cyfrannu at wneud newidiadau yn eu cymuned.
- yn cael profiadau a chyfleoedd newydd.
ENGHRAIFFT: cymryd rhan mewn prosiect ymchwil lle maen nhw'n gyfrifol am beth sy'n digwydd.
- yn dysgu sut i fod yn 'bobl iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau bodlon fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas'.
ENGHRAIFFT: dysgu sut i ddylanwadu ar newid yn eu cymuned a phwysigrwydd bod eraill yn clywed eu lleisiau.



Mae'r sesiynau yn y pecyn yn trafod pob un o'r Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:


- **Y Celfyddydau Mynegiannol**

ENGHRAIFFT: Drwy gyflwyno eich canfyddiadau ar ffurf drama neu sioe (fel y gwnaeth Grŵp Plant yn Gyntaf Ysgol Gynradd Pillgwenlly)



- **Mathemateg a Rhifedd**

ENGHRAIFFT: Coladu a Dadansoddi canlyniadau arolygon



- **Iechyd a Lles**

ENGHRAIFFT: Ymgynghori ar bwnc i hybu lles y gymuned ysgol a chwilio am atebion i broblem yn y gymuned



- **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

ENGHRAIFFT: dewis sut i gyfathrebu a chyflwyno eich canfyddiadau mewn ffordd berswadiol i'ch cynulleidfya darged



- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

ENGHRAIFFT: Defnyddio technoleg mewn ffordd arloesol i wneud arolwg a dadansoddi'r canlyniadau



- **Dyniaethau**

ENGHRAIFFT: dehongli gwybodaeth, cwestiynu pa mor ddibynadwy a di-ragfarn yw'r wybodaeth, datrys problemau a defnyddio sgiliau mapio daearyddol (fel y gwnaeth grŵp Plant yn Gyntaf Ysgol Gynradd Millbrook*)



Drwy'r pecyn hwn fe sylwch ar eiconau ar ymyl tudalennau cynlluniau'r sesiynau (fel y gwelwch uchod). Maen nhw wedi eu cynnwys i ddangos pryd mae gweithgaredd yn berthnasol i agwedd ar un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

*er enghraifft, gweler C1 yn holiadur Millbrook (Atodiad 2)

Mwy o resymau fyth i ddefnyddio'r pecyn hwn

**Mae cymaint o fanteision i ddefnyddio'r pecyn hwn yn eich ysgol!
Mae llawer o fanteision amrywiol.**

Isod mae rhai o'r manteision posib y gallai plant eu hennill:

Datblygu **sgiliau llythrennedd** drwy drafodaeth grŵp, rhesymu, gwneud penderfyniadau, cyflwyno a chyfathrebu canfyddiadau ac yn y blaen.

Bydd **sgiliau rhifedd** y plant yn gwella drwy gasglu data, coladu canlyniadau, dadansoddi canfyddiadau a'u cyflwyno mewn graffiau.

Yn cyflawni un o argymhellion allweddol **adroddiad Donaldson** (2015) drwy ddysgu plant i fod yn 'bobl foesegol a gwybodus'... 'yn unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau bodlon fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.'

Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol – "Dysgu sgiliau digidol y gellir eu rhoi ar waith mewn ystod eang o bynciau a senarios y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith."

Yn helpu i gwrdd ag **Amcan Llesiant 3 Cyngor Dinas Casnewydd**: 'Mae pobl a chymunedau'n gyfeillgar, hyderus ac wedi eu grymuso i wella eu lles.' Mae plant wedi eu grymuso i fynegi eu barn gan ddisgwyl bod eraill yn gwrando a gweithredu ar eu barn.

*Gweler y llyfryddiaeth yng nghefn y pecyn am fanylion yr holl ddolenni gwe, adroddiadau a chyhoeddiadau y cyfeiriwn atynt uchod.

***“Byddwn yn argymhell
ei wneud oherwydd
gallwch fod yn fwy
o ran o bethau a
byddwch yn teimlo’n
falch iawn o’ch hun.”***



Annais

***“Mae’n gyfle
gwyh i blant.”***

Libby

***“Byddwn yn
ei argymhell
oherwydd gallwch
gael mwy o
brofiadau.”***

Caitlin



Golwg byr ar y sesiynau

Mae'r sleidiau yn rhoi trosolwg byr i chi ar y deg cynllun sesiwn. Os yw'n helpu yn eich cyd-destun, gallwch rannu'r amcanion dysgu gyda'r plant drwy ddangos y sleidiau ar sgrîn.

Sesiwn 1 – Gwybod Eich Hawliau!

Amcan y Wers

Deall beth yw cyfranogi
a pham fod eich
hawliau'n bwysig.



Sesiwn 2 – Pynciau Llosg

Amcan y Wers

Deall beth yw ymgynghori
a phenderfynu ar bwnc
neu fater y byddech yn
hoffi rhoi sylw iddo yn
eich ysgol.



Sesiwn 3 – Amser Penderfynu!

Amcan y Wers

Deall bod gwahanol fathau o holiadur ac arolygon a dewis pa un i'w ddefnyddio.



Sesiwn 4 – Dewis Cwestiynau

Amcan y Wers

Deall beth yw cwestiwn da a phenderfynu pa gwestiynau y byddwch yn eu gofyn.



Sesiwn 5 – Pa Arolwg?

Amcan y Wers

Defnyddio'r hyn a
ddysgoch hyd yma i
ddylunio eich
ymgyngoriad eich hun.



Sesiwn 6 – Dadansoddi'r Atebion

Amcan y Wers

Casglu'r atebion i'r
cwestiynau ynghyd a
deall pwysigrwydd trin
a thrafod gwybodaeth
yn sensitif.



Sesiwn 7 – Dadansoddi Data

Amcan y Wers

Dadansoddi'r data o'r
ymgyngoriad a chanfod
patrymau a themâu o'r
atebion.



Sesiwn 8 – Rhannu'r Canlyniadau!

Amcan y Wers

Penderfynu gyda
phwy yr ydych eisiau
rhannu canlyniadau'r
ymgyngoriad.



Sesiwn 9 – Cyflwyno Creadigol

Amcan y Wers

Chwilio am ffyrdd
creadigol o gyflwyno'r
wybodaeth a
gasgloch ynghyd.



Sesiwn 10 – Dangos Eich Hun!

Amcan y Wers

Cyflwyno eich
canfyddiadau yn y
fformat a ddewisoch.



Sesiwn 1 – Gwybod Eich Hawliau!



Nodau ac Amcanion

Deall beth yw cyfranogi a pham fod eich hawliau'n bwysig.



Pa Adnoddau?

- Cardiau UNCRC (Adnodd 1 – i'w torri cyn y sesiwn)
- Papur siart troi
- Pinnau ysgrifennu lliw



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Wele'r 10 Gorau - Gweithgareddau Torri'r Rhew. Byddai [Hunan-bortread](#) neu [Ysgwn i pwy](#) yn gweithio'n dda oherwydd y sesiwn gyntaf yw hon.



Prif Weithgareddau

Rheolau'r Grŵp



Os yw'n grŵp newydd, efallai y byddwch am i'r plant awgrymu ychydig o reolau, e.e.

Gwrando ar y person a ddewisir fel siaradwr;
Parchu barn eich gilydd;
Yr hawl i ddisgwyl bod eraill yn gwrando ar eich syniadau;
Teimlo'n ddiogel i leisio eich barn.

Gallech wneud hyn fel grŵp cyfan yn defnyddio papur siart troi. Gadewch i'r plant awgrymu rheolau ac unwaith y byddwch i gyd yn hapus â nhw, gallai pob unigolyn lofnodi eu henwau ar y papur. Gellir dangos y rheolau hyn ym mhob sesiwn i'w hatgoffa, neu dynnu llun a'i arddangos.



Gweithgaredd roced gyda'r UNCRC



- Ar bapur siart troi, y plant i dynnu llun llong ofod, planed a bod estron (alien).
- Y plant i ddychmygu eu bod yn sefydlu cymuned newydd yn y gofod ac i dorri'r cardiau UNCRC i benderfynu pa hawliau yn eu barn nhw a fyddai bwysicaf ar y blaned newydd – medrant ddewis hyd at 20 o hawliau.
- Drwy ddefnyddio'r cardiau UNCRC, trafod beth yw eu hawliau a pha rai sydd bwysicaf iddynt. Rhoi'r rhai y maen nhw am eu cadw ar y blaned, os yw hyn yn helpu.
- Wrth iddynt wneud y gweithgaredd, tywys y drafodaeth i'w cael i feddwl am eu hawliau: Sut fydddech chi'n egluro eich hawliau i'r bod estron? Pa rai sydd bwysicaf? Pa rai sydd bwysicaf i chi'n bersonol? Pa rai fydddech chi'n cael gwared arnynt? A allwch gael gwared ar unrhyw rai? Sut fydddech chi'n hoffi i fywyd fod ar y blaned newydd? Beth yw rhai o'r pethau nad ydynt yn dda iawn am fywyd ar y Ddaear? Pa newidiadau fydddech chi'n eu gwneud ar gyfer y blaned newydd?



“Mae gwneud ‘Darganfod Eich Llais’ yn eich helpu i ddeall mwy am beth sy’n digwydd yn y byd.”

Ousman



“Fy hoff sesiwn i oedd yr un gyntaf lle’r oedden ni’n cyfarfod ein gilydd.”

Annais



At y Tro Nesaf

Gofynnwch i'r plant ystyried:

Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn eich ysgol / cymuned leol?

Beth hoffech chi ei newid?

Adnodd 1

Cardiau UNCRC

Cardiau i gael
eu torri allan
i helpu'r
drafodaeth



Mae gan bawb dan 18 oed
yr hawliau hyn o gyd.

Yr hawl i gael eich amddiffyn rhag
gwahaniaethu.

Hynny yw, ni all neb eich trin yn wael
oherwydd lliw eich croen, eich rhyw
neu grefydd, os siaradwch iaith arall,
os oes anabledd gennych, os ydych yn
gyfoethog neu'n dlawd.

Dylai oedolion bob amser wneud
yr hyn sydd orau i chi.

Mae gennych hawl i ddisgwyl
bod y llywodraeth yn troi eich
hawliau'n realiti.

Mae gennych hawl i ddisgwyl arweiniad
gan eich rhieni a'ch teulu.

Mae gennych hawl i fywyd.

Mae gennych hawl i gael enw a
chenedligrwydd.

Mae gennych hawl
i hunaniaeth.



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC

Mae gennych hawl i fyw gyda'ch rhieni,
oni bai fod hynny'n ddrwg i chi.

Mae gennych hawl i feddwl fel y
dymunwch a bod yn ba bynnag
grefydd y dymunwch, gydag
arweiniad eich rhieni.

Os ydych chi a'ch rhieni'n byw
mewn gwledydd gwahanol, mae
gennych hawl i ddod yn ôl at eich
gilydd a byw yn yr un lle.

Mae gennych hawl i fod gyda
ffrindiau neu i ymuno neu sefydlu
clybiau, oni bai fod hyn yn torri
hawliau pobl eraill.

Ni ddylech gael eich herwgipio.

Mae gennych hawl i fywyd preifat.
Er enghraifft, gallwch gadw dyddiadur
na ddylai neb arall gael ei weld.

Mae gennych hawl i farn ac i
ddisgwyl bod eraill yn gwrando
arni a'i chymryd o ddifrif.

Mae gennych hawl i dderbyn y
gofal gorau os ydych wedi cael
eich mabwysiadu, eich maethu
neu'n byw mewn gofal.

Mae gennych hawl i ddarganfod pethau
a dweud eich meddwl, drwy wneud celf,
siarad ac ysgrifennu, oni bai ei fod yn
torri hawliau pobl eraill.

Mae gennych hawl i gasglu gwybodaeth
o'r cyfryngau – radio, papurau newydd,
teledu, ac yn y blaen – o gwmpas y byd.

Dylech hefyd gael eich gwarchod rhag
gwybodaeth a allai wneud niwed i chi.



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC

Mae gennych hawl i gael eich
magu gan eich rhieni,
os yw hynny'n bosib.

Mae gennych hawl i'r iechyd
gorau posib ac i dderbyn gofal
meddygol a gwybodaeth fydd yn
eich helpu i aros yn iach.

Mae gennych hawl i gael eich
gwarchod rhag cael eich brifo neu
eich trin yn ddrwg.

Mae gennych hawl i ddisgwyl
bod rhywun yn archwilio eich
trefniadau byw'n gyson os ydych
mewn gofal oddi cartref.

Mae gennych hawl i warchodaeth
a chymorth arbennig os na
allwch fyw gyda'ch rhieni.

Mae gennych hawl i gymorth
gan y llywodraeth os ydych
yn dlawd neu mewn angen.

Mae gennych hawl i warchodaeth a
chymorth arbennig os ydych yn ffoadur.

Ffoadur yw rhywun sydd wedi gorfod
gadael eu gwlad oherwydd nad yw'n
ddiogel iddyn nhw fyw yno.

Mae gennych hawl i safon
byw digon da.

Mae hyn yn golygu y dylai fod gennych
fwyd, dillad a lle i fyw.

Os ydych yn gorfforol neu'n feddyliol
anabl, mae gennych hawl i dderbyn
gofal ac addysg arbennig i'ch helpu i
ddatblygu a byw bywyd llawn.

Mae gennych hawl i addysg.



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC

Mae gennych hawl i addysg sy'n ceisio datblygu eich personoliaeth a'ch gallu gymaint â phosib, ac sy'n eich annog i barchu hawliau a gwerthoedd pobl eraill a pharchu'r amgylchedd.

Mae gennych hawl i gael eich amddiffyn rhag cam-drin rhywiol.

Os ydych yn dod o grŵp lleiafrifol oherwydd eich hil, crefydd neu iaith, mae gennych hawl i fwynhau eich diwylliant eich hun, i ymarfer eich crefydd eich hun ac i ddefnyddio eich iaith eich hun.

Nid oes neb yn cael eich herwgipio na'ch gwerthu.

Mae gennych hawl i chwarae ac ymlacio drwy wneud pethau fel chwaraeon, cerdd a drama.

Mae gennych hawl i gael eich gwarchod rhag unrhyw fath arall o ecsbloetio.

Mae gennych hawl i gael eich gwarchod rhag gwneud gwaith sy'n ddrwg i'ch iechyd neu addysg.

Mae gennych hawl i beidio â chael eich cosbi mewn ffordd greulon neu gas.

Mae gennych hawl i gael eich gwarchod rhag cyffuriau peryglus.

Mae gennych hawl i gael eich gwarchod yn ystod rhyfel.
Os ydych o dan 15 oed, ni ddylech byth orfod bod mewn byddin na chymryd rhan mewn brwydr.



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC

Mae gennych hawl i dderbyn help os
cawsoch eich brifo, eich esgeuluso neu
eich trin yn wael.

Mae gennych hawl i unrhyw hawliau
mewn cyfreithiau yn eich gwlad eich
hun, neu'n rhyngwladol, sy'n rhoi
hawliau gwell i chi na'r rhai hyn.

Dylai pob un oedolyn a phlentyn wybod
am y confensiwn hwn. Mae gennych
hawl i ddysgu am eich hawliau a dylai
oedolion ddysgu amdanynt hefyd.

Mae gennych hawl i gymorth i
amddiffyn eich hun os cawsoch eich
cyhuddo o dorri'r gyfraith.



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC



Cardiau
Gweithgaredd
UNCRC

Sesiwn 2 – Pynciau Llosg



Nodau ac Amcanion

Deall beth yw ymgynghori a phenderfynu ar bwnc neu fater y byddech yn hoffi rhoi sylw iddo yn eich ysgol.



Pa Adnoddau?

- Rheolau Iard yr Ysgol (Adnodd 2) – argraffu i'r plant gael eu gweld
- Nodiadau post-it
- Piniau ysgrifennu



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Dod o hyd i rywun neu Ysgwn i pwy



Prif Weithgareddau

Gweithgaredd Rheolau Iard Yr Ysgol



Rhowch gopi o 'reolau newydd iard yr ysgol' i'r plant (gallech eu haddasu ar gyfer eich ysgol chi) ac egluro eich bod chi, fel oedolyn, wedi meddwl am newidiadau ar gyfer amser cinio. Holwch farn y plant am y rheolau newydd ac ydyn nhw'n hapus i'r newidiadau gael eu gorfodi arnyn nhw? Os na, pam ddim?

Trafodwch hyn gyda'r plant. Os ydych eisiau gwneud newidiadau yn yr ysgol, pwy yw'r bobl orau i ofyn iddyn nhw? Pwy yw'r arbenigwyr?

Beth yw ymgynghori / ymgynghoriad? Cyflwyno'r plant i'r syniad o ymgynghori. Sut allwn ni ganfod beth yw barn plant? Ydy pawb gyda'r un farn?



Dewis mater i roi sylw iddo

Pa fater(ion) / problem(au) y byddai'r plant yn hoffi iddyn nhw gael sylw yn eu hysgol / cymuned? Am ba faterion y meddyliodd y plant y tro diwethaf?

Dosbarthwch nodiadau post-it a chael y plant i ysgrifennu'r materion y byddent yn hoffi iddyn nhw gael sylw. Medrant awgrymu mwy nag un. Yna rhowch nodiadau post-it ar y wal a grwpio'r rhai tebyg gyda'i gilydd. Gall y plant bleidleisio dros ba fater fydd yn cael ei drafod yn yr ymgynghoriad.

Dewiswch o'r 10 Gorau – Dulliau Pleidleisio – byddai Wedi Dotio neu Trefn Diamwnt yn gweithio'n dda yma.

“Gallwch newid y ffordd y mae eich cymuned yn gweithio er gwell.”

Ousman



At y Tro Nesaf

Gofynnwch i'r plant ddechrau siarad â'u ffrindiau am y mater sydd wedi'i ddewis.



Y plant i ddefnyddio dotiau gludiog i bleidleisio dros yr opsiynau sydd orau ganddynt.

Adnodd 2 – Rheolau newydd iard yr ysgol



1. Dim ond bechgyn sy'n gallu chwarae pêl-droed.
2. Dim rhedeg ar iard yr ysgol.
3. Dim ond gemau tawel i gael eu chwarae.
4. Bydd 10 munud yn llai o amser chwarae ar ddydd Mawrth / Iau oherwydd gwersi maths ychwanegol.
5. Gall plant blwyddyn 6 fwyta byrbrydau yn yr iard chwarae, neb arall.

Sesiwn 3 – Amser Penderfynu!



Nodau ac Amcanion

Deall bod gwahanol fathau o holiadur ac arolygon a dewis pa un i'w ddefnyddio.



Pa Adnoddau?

- 1x o gardiau holiadur (wedi eu torri a'u plygu) – Adnodd 3
- 1x o daflenni gwybodaeth holiadur – Adnodd 4
- 4x o daflenni ffeithiau gwag – Adnodd 5
- Gliniaduron / dyfeisiau llechi (dewisol)



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Byddai [Gwe o gwestiynau](#) neu [Cyfarfod a chymysgu](#) yn gweithio'n dda.



Prif Weithgareddau

Mathau o holiaduron



Atgoffwch y plant o'r pwnc a ddewiswyd ganddynt ar ddiwedd y sesiwn ddiwethaf.

Eglurwch i'r plant y bydd raid iddynt, erbyn diwedd y sesiwn, fod wedi dewis sut y maen nhw am ofyn cwestiynau'r ymgynghoriad.

Rhowch y 4 cerdyn wedi'i dorri (Adnodd 3) mewn het / blwch / bag a'i ysgwyd. Rhannwch y plant yn grwpiau bach o 2, 3 neu fwy. (Gallech ddefnyddio'r gweithgaredd torri'r rhew i'ch llinellau! i rannu'r plant yn grwpiau os byddai hyn yn ddefnyddiol). Bydd angen 4 grŵp arnoch fel bod gan bob grŵp gerdyn i'w drafod. Yna, pob grŵp i dynnu cerdyn allan i'r het i benderfynu sut fath o holiadur y bydd y grŵp yn edrych arno.

Rhowch gopi o'r daflen ffeithiau wag (Adnodd 5) i bob grŵp a'r daflen wybodaeth holiadur (Adnodd 4) berthnasol i'w grŵp. Gofynnwch i'r plant ei lenwi ar gyfer y cerdyn a dynnodd eu grŵp allan o'r het. Rhowch ddigon o amser ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Os oes gennych liniaduron neu ddyfeisiau llechen i fynd ar y we, gallech ystyried gadael i'r plant wneud mwy o ymchwil ar-lein i'w math nhw o holiadur.

Yna'r plant i roi adborth ar y wybodaeth a gasglwyd ganddynt i weddill y grŵp. Dylech eu hannog i ddefnyddio iaith berswadiol i geisio darbwyllo'r lleill i ddefnyddio eu math nhw o holiadur.

Drwy ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd, rhaid i'r plant bleidleisio ar y math o holiadur fydd yn eu barn nhw'n gweithio orau i'w hysgol ac i'r pwnc.

Dewiswch un o'r 10 Gorau – Dulliau Pleidleisio yn y pecyn. Gallai Hwla Hŵp, Colli eich Marblis neu Drefn Diamwnt weithio. Fe ddefnyddion ni Wedi Dotio i benderfynu pa holiadur i fynd amdano (gweler y darlun isod).

Video Interviewing	1st	2nd	3rd	LEAST LAST
Paper questionnaire	1st	2nd	3rd	LEAST LAST
Suggestion Box	1st	2nd	3rd	LEAST LAST
Graffiti Wall	1st	2nd	3rd	LEAST LAST
Online Survey	1st	2nd	3rd	LEAST LAST
Take some pictures	1st	2nd	3rd	LEAST LAST
Opinion Finder	1st	2nd	3rd	LEAST LAST
Dot voting	1st	2nd	3rd	LEAST LAST

“Gall llawer o blant wneud gwahaniaeth.”

Teagan



At y Tro Nesaf

Cael y plant i feddwl pa gwestiynau y byddent yn hoffi eu gofyn?

Adnodd 3 – Gwahanol fathau o holiadur



Torrwch allan y gwahanol fathau o holiadur isod. Plygwch nhw a'u rhoi mewn cynhwysydd fel na all y plant weld y geiriau. Bydd yn rhaid tynnu un allan a hwn wedyn fydd y math o holiadur y dylent ymchwilio iddo.

Papur

Electronig / Ar-lein

Fideo

Cyfweld

Adnodd 4 – Taflenni gwybodaeth holiadur



Dylid argraffu'r dudalen hon a'i dosbarthu i'r grwpiau yn ôl pa gerdyn y gwnaethant ei ddewis. Dylent ddarllen y wybodaeth ac yna llenwi eu taflenni ffeithiau gwag, yn barod i'w cyflwyno i weddill y grŵp.

Cofiwch bwysleisio bod angen darllen a deall – nid dim ond copïo ac ailadrodd!

Gan ddibynnu ar lefel eu gallu, gallech wneud y gweithgaredd yma'n anoddach drwy ddal eich gafael ar y taflenni gwybodaeth hyn tan ar ôl i'r plant gael amser i feddwl am syniadau eu hunain.

P'un ai y rhowch y taflenni gwybodaeth i'r plant ar y dechrau, neu hanner ffordd trwodd, dylech eu hannog i feddwl am y manteision / anfanteision – ni fydd yn rhestr gyflawn o gwbl.

Gweler Atodiad 1 am enghraifft o holiadur papur.

Papur

Dyma'r ffordd draddodiadol o lenwi holiadur / gwneud arolwg. Gellir ei wneud yn fwy rhyngweithiol a hwyl drwy gynnwys gweithgareddau creadigol. Y dull yw ysgrifennu'r cwestiynau, eu hargraffu a mynd â'r holiadur at bobl i ofyn y cwestiynau iddynt wyneb yn wyneb.

- + Wyneb yn wyneb, yn osgoi camddealltwriaeth
- + Dim problem os yw'r dechnoleg yn methu!
- + Gall pobl fod yn fwy gonest oherwydd mae'n ddi-enw
- Yn creu llawer iawn o wastraff papur
- Yn cymryd amser hir i edrych ar yr atebion o bob holiadur
- Ddim y dewis gorau i blant nad ydyn nhw'n gallu darllen.

Electronig / ar-lein

Dull mwy modern o lenwi holiadur. Mae gwefannau ar gael sy'n gadael i chi ddylunio ac anfon holiadur allan.

- + Yn arbed amser. Gallwch ei anfon at lawer iawn o bobl yn gyflym iawn.
- + Gall gwefannau ei gwneud yn haws i chi ddadansoddi'r canlyniadau.
- + Dim angen argraffu pethau a gwastraffu papur.
- Ddim yn wyneb yn wyneb felly gall pobl gamddeall y cwestiynau.
- Gall pethau fynd o'i le gyda'r dechnoleg.
- Rydych wedi'ch cyfyngu gan y wefan. Efallai na fydd yn gallu gwneud popeth sydd gennych mewn golwg.

Fideo

Mae'r cwestiynau'n cael eu recordio ymlaen llaw ac yna'n cael eu dangos i bobl sy'n cymryd rhan yn yr arolwg fel y medrant eu hateb.

- + Gallwch fod yn greadigol – efallai drwy actio'r cwestiynau fel drama.
- + Yn fwy rhyngweithiol a difyr i'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr arolwg.
- + Gallwch gyrraedd llwyth o bobl ar y tro, gan efallai ddangos cwestiynau'r fideo i ddosbarth cyfan ar unwaith.
- Gallai'r dechnoleg fethu neu efallai na fyddwch yn gallu chwarae'r fideo ym mhob man.
- Gallai'r fideo ei hun dynnu sylw pobl oddi wrth gwestiynau'r arolwg.
- Yn llai personol felly gallai pobl gamddeall y cwestiynau.
- Gallai fod yn ddrud gwneud hyn.

Cyfweld

Dull wyneb yn wyneb, eistedd i lawr gydag un person ar y tro i siarad gyda nhw a chlywed eu hatebion i bob cwestiwn.

- + Atebion o ansawdd gwell oherwydd gallwch siarad â'r person am eu hatebion ac egluro unrhyw gamddealltwriaeth.
- + Yn teimlo'n fwy personol oherwydd gallwch gael sgwrs.
- + Mae'r cyfranogwyr yn teimlo eich bod yn gwrandao arnynt ac yn eu gwerthfawrogi.
- Yn cymryd mwy o amser oherwydd rhaid ailadrodd y cwestiynau gyda phob person.
- Byddai'n rhaid i chi fod yn ofalus i beidio ag annog pobl i roi rhai atebion.
- Gallai pobl fod yn llai parod i ddweud y gwir wrth roi atebion wyneb yn wyneb.
- Gallai rhai pobl deimlo dan bwysau mewn cyfweliad.

Adnodd 5 – Taflen ffeithiau holiadur



Sut fath o Holiadur yw eich un chi?

Beth yw rhai o'r pethau da am ofyn cwestiynau drwy'r math yma o holiadur?

-
-
-

Beth yw rhai o'r pethau heb fod cystal am ofyn cwestiynau fel hyn?

-
-
-

Ydy'r math yma o holiadur yn gweithio yn eich ysgol chi? Pam / pam ddim?

Ydy'r math yma o holiadur yn gweithio ar gyfer y pwnc / mater yr ydych wedi'i ddewis? Pam / pam ddim?

Nawr rhannwch eich canfyddiadau â gweddill y grŵp!

Sesiwn 4 – Dewis Cwestiynau



Nodau ac Amcanion

Deall beth yw cwestiwn da a phenderfynu pa gwestiynau y byddwch yn eu gofyn.



Pa Adnoddau?

- Torri i fyny'r cwestiynau defnyddiol / di-fudd (Adnodd 6) ymlaen llaw
- Hwps / cylchoedd chwaraeon ar y llawr
- Ysgrifennu / dangos y Pwyntiau i'w Cofio ar y wal / bwrdd (Adnodd 7)
- Nodiadau post-it
- Pinau ysgrifennu
- Papur siart troi
- Argraffu'r Grid cwestiynau (Adnodd 8)



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Dod o hyd i rywun neu Choeliwch chi byth!



Prif Weithgareddau

Cwestiynau defnyddiol / di-fudd

Y plant i roi'r cwestiynau defnyddiol / di-fudd (Adnodd 6) a dorrwyd i fyny mewn cylchoedd diagram Venn. Un cylch ar gyfer cwestiynau defnyddiol a'r llall ar gyfer rhai di-fudd. Y cwestiynau sy'n gorgyffwrdd yw'r rhai nad yw'r plant wedi penderfynu arnyn nhw. Mae'r atebion ar gefn y cardiau ond ceisiwch wneud y gweithgaredd cyn troi'r cardiau drosodd i weld ydy eich atebion yr un fath â'n rhai ni!

Eglurwch: Rhaid gofyn cwestiynau er mwyn holi barn pobl. Gorau'n byd ydy'r cwestiwn, gorau'n byd fydd yr ateb!



Ein cwestiynau

Dechreuwch drwy atgoffa'r plant o'r pwnc / mater a ddewiswyd ar gyfer yr ymgynghoriad a'r dull o gasglu'r wybodaeth.

Pa gwestiynau allwn ni ofyn yn yr ymgynghoriad? I beth ydyn ni eisiau canfod atebion iddyn nhw? (dangoswch y Pwyntiau i'w Cofio – Adnodd 7).

Gyda'ch gilydd, meddwl am gwestiynau posib – cofiwch y bydd y cwestiynau hyn yn cael eu gofyn ar holiadur / mewn ymgynghoriad – Map Meddwl ar bapur siart troi.


Dewiswch blentyn i gofnodi'r cwestiynau – defnyddiwch y Grid (Adnodd 8) os oes angen.

Defnyddiwch un o'r 10 Gorau – Dulliau Pleidleisio i ddewis y cwestiynau gorau i'r ymgynghoriad. (byddai Codi Llaw neu Stumiau Emoji yn gweithio'n dda).

Rydyn ni'n argymhell na ddylech ddefnyddio mwy na 10 cwestiwn.

***“Mae gan bawb lais
a dylen ni i gyd
ei ddefnyddio.”***

Mehreen



At y Tro Nesaf

Beth sydd ei angen i ddylunio'r arolwg? Gan ddibynnu ar y math o arolwg sydd wedi'i ddewis, gallai fod angen Gliniaduron / Deunyddiau Crefft / Cyfarpar Recordio ac ati.

Gweler Atodiad 2 am syniadau ar gyfer holiadur papur.

Adnodd 6 – Cwestiynau defnyddiol / di-fudd



Beth yw ystyr bywyd?

Beth fyddai'n well gennych,
bar o siocled blasus neu fisged blaen?

Rwyf wrth fy modd yn chwarae pêl-droed yn yr ysgol –
beth yw'r gêm chwaraeon orau yn eich ysgol chi?

Gyda phwy allwch chi siarad am help? (plismon, athro
neu athrawes, ffrindiau, meddyg, cwnselydd, teulu)

Beth ydych chi'n wir falch ohono yn eich cymuned?

Beth ydych chi ddim yn ei ddrwglicio am eich ysgol?

Hoffech chi gymryd rhan yn eich cymuned?

Rhowch gylch o gwmpas eich ateb

IE

NA

EFALLAI

Ydy o'n beth da cael cinio pysgodyn ar ddydd Gwener?
(Cytuno / Anghytuno / Ddim yn siŵr)

DI-FUDD oherwydd mae'n amherthnasol
i'ch arolwg ac yn rhy 'agored'

DI-FUDD oherwydd mae rhagfarn
tuag at un o'r atebion

DI-FUDD oherwydd ei fod yn gwestiwn arweiniol

DEFNYDDIOL oherwydd mae'n cynnig ystod dda o
opsiynau addas i ddewis ohonynt

GALLAI FOD YN DDEFNYDDIOL NEU'N DDI-FUDD
oherwydd mae'n berthnasol a ddim yn arweiniol, ond gallai
fod yn rhy 'agored' a gallech gael gormod o wahanol atebion

DI-FUDD oherwydd mae wedi'i eirio'n ddryslyd

DEFNYDDIOL oherwydd mae'n gwestiwn clir a syml
sy'n cynnig atebion clir

GALLAI FOD YN DDEFNYDDIOL NEU'N DDI-FUDD
oherwydd mae'n rhoi ateb clir ond mae angen
iddo fod yn berthnasol i'ch arolwg

Adnodd 7 – Pwyntiau i'w cofio



Bydd y pwyntiau hyn yn eich helpu i benderfynu pa gwestiynau i'w gofyn yn yr ymgynghoriad. Dylech eu dangos lle gall y plant eu gweld ac egluro bob pwynt.

Pwyntiau i'r athro neu athrawes eu cofio:
(dylech eu dangos i'r plant gael eu gweld)

- Ydy hi'n bosib ateb y cwestiwn hwn?
- Fydd y cwestiwn hwn yn ypsetio unrhyw un?
- Fydd pobl yn hapus i ateb y cwestiwn?
- Fydd y cwestiwn hwn yn rhoi gwybodaeth i ni am beth yr ydyn ni eisiau ei wybod?
- Sut fydd pobl yn gallu ateb y cwestiwn hwn?

Adnodd 8 – Grid cwestiynau



Ydy..	Wnaeth..	Fedrith...	Fyddai...	Allai...		
Pwy...	Beth...	Ble...	Pryd ...	Pam...	Sut...	

Sesiwn 5 – Pa Arolwg?



Nodau ac Amcanion

Defnyddio'r hyn a ddysgoch hyd yma i ddylunio eich ymgynghoriad eich hun.



Pa Adnoddau?

- Beth sy'n gwneud cwestiwn da? Rhestr wirio (Adnodd 9)
- Eich cwestiynau o Sesiwn 4
- Gweler Atodiad 2 fel enghraifft ac er gwybodaeth
- Cyfarpar TGCh neu ddeunyddiau crefft i ddylunio eich arolwg (gan ddibynnu ar sut fath o arolwg a ddewisoch)



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Ras grocodeil neu Barn y papurau



Prif Weithgareddau

Ewch dros y cwestiynau

Beth am adolygu'r cwestiynau o Sesiwn 4 – ydych chi eisiau addasu unrhyw gwestiwn? Defnyddiwch y Rhestr Wirio (Adnodd 9) i fynd drwy bob cwestiwn.



Dylunio eich arolwg

Cofiwch adael digon o amser i wneud y gweithgaredd hwn oherwydd bydd hyn yn cwblhau dyluniad eich arolwg.

Rydyn ni wedi seilio'r sesiwn hon ar holiadur papur – gweler Atodiad 2 am enghraifft o un.

Sut fydddech chi'n hoffi gofyn eich cwestiynau? Gweler yr enghreifftiau o Atodiad 2 i helpu i gychwyn trafodaeth. Gallwch ddefnyddio'r adnoddau sydd gennych wrth law – clai chwarae / lego / ffigyrau / teganau / darluniau.

Rhowch gwestiwn i bob plentyn (neu barau gan ddibynnu ar faint eich grŵp) fydd yna'n gyfrifol am ddylunio sut y byddwch yn gofyn y cwestiwn hwnnw. Rhowch amser i'r plant wneud hyn.

Os ydych yn hyderus wrth ddefnyddio TGCh, mae digonedd o wefannau dylunio arolwg i'w cael am ddim.

“Rwyf wedi dysgu nad oedolion yn unig sydd â llais, mae gan blant lais hefyd”

Annais



At y Tro Nesaf

Ar ôl dewis eich cwestiynau ac ystyried sut y byddwch yn eu gofyn, bydd angen i chi nawr gwblhau eich arolwg / ymgynghoriad.

Gan ddibynnu ar faint sydd yn eich grŵp ysgol / blwyddyn, gallai hyn gymryd peth amser a bydd angen ystyried sut orau i wneud hyn.

A fydd y plant eu hunain yn gwneud yr arolwg, neu a fyddwch yn gofyn i'r athrawon dosbarth neilltuo ychydig o amser yn yr wythnos i gyflawni'r arolwg? Ai tasg dysgu gartref fydd hi? A dweud y gwir, mae hyn yn dibynnu ar sut arolwg ydy o a'r cwestiynau y byddwch yn eu gofyn.

Efallai y byddwch eisiau trafod cael caniatâd gan y plant fydd yn cymryd rhan yn yr arolwg.

Gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion am y pwnc ac am dempled caniatâd y gallech ei ddefnyddio yn eich ysgol.



Adnodd 9 – Rhestr wirio beth sy'n gwestiwn da?



	C1									
	C2									
	C3									
	C4									
	C5									
	C6									
	C7									
	C8									
	C9									
	C10									
Fydd y bobl sy'n llenwi'r holiadur yn deall y cwestiwn?										
Fydd y bobl yn mwynhau ateb y cwestiwn?										
Fydd y bobl yn gallu ateb y cwestiwn yn sydyn?										
Fydd y cwestiwn yn rhoi atebion defnyddiol i ni?										
Fyddwn ni'n gallu cyfri'r atebion yn hawdd?										

Sesiwn 6 – Dadansoddi'r Atebion



Nodau ac Amcanion

Casglu'r atebion i'r cwestiynau ynghyd, a deall pwysigrwydd trin a thrafod gwybodaeth yn sensitif.



Pa Adnoddau?

- Astudiaethau achos wedi eu hargraffu (Adnodd 10)
- Atebion arolwg
- Preniau lolis rhew / Pretzels



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Taith gryfderau neu Hunan-bortread



Prif Weithgareddau

Trin a thrafod gwybodaeth yn sensitif



Rhowch yr astudiaethau achos, un ar y tro, i'r plant (Adnodd 10), yna cael trafodaeth grŵp i drafod sut y dylen nhw ddelio â'r sefyllfaoedd hyn. Cofiwch siarad am gyfrinachedd a pharchu barn pobl eraill.

***“Fe ddysgais
fod trin data'n
llawn o hwyl!”***

Libby





Casglu'r atebion ynghyd

Rhannwch y plant yn grwpiau a rhoi cyfrifoldeb am rai o'r atebion iddyn nhw.

Bydd angen i'r plant gyfri'r atebion i'r cwestiynau, hynny yw:
Cwestiwn 1 – Ydych chi'n ailgylchu?

Ydw = 10

Nac ydw = 5

I'w wneud yn fwy creadigol, beth am ddefnyddio prenau lolis rhew, Pretzels neu rywbeth arall i gyfrif?

Os oes amser, gallech drafod ydych chi'n hapus â'r canlyniadau neu beidio ac a oedd y canlyniadau'n rhai disgwyliedig.

“Tynnwch lun ffotograff o'r canlyniadau cyn i unrhyw beth gael ei gadw neu ei fwyta!”



At y Tro Nesaf

Cadwch lygad allan am ffyrdd diddorol y mae pobl eraill yn arddangos gwybodaeth.

“I fod yn fwy creadigol, beth am ddefnyddio prennau lolis rhew, pretzels neu rywbeth arall i gyfri?

Cofiwch dynnu llun o'r canlyniadau cyn i unrhyw beth gael ei roi i gadw neu ei fwyta!”



Adnodd 10 – Astudiaethau achos



Nodyn i hwyluswyr:

Nod astudiaeth achos un yw cael trafodaeth am gyfrinachedd a chael y plant i feddwl pam nad ydi hi'n syniad da rhannu gwybodaeth bersonol â phobl eraill. Ond os oes problem gyda bwlio neu rywbeth tebyg, yna dylen nhw rannu hyn gydag athrawes neu athro i helpu i ddelio gyda'r broblem a chefnogi'r plentyn.

Nod astudiaeth achos dau yw dechrau trafodaeth am barchu gwahanol farn – hyd yn oed os nad ydych yn cytuno neu'n meddwl eu bod yn ddigywilydd. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod canfyddiadau'n cael eu rhannu mewn ffordd briodol a di-enw os yw dyfyniadau, neu adborth penodol, yn cael eu rhannu. Pwynt trafod arall posib gyda'r plant yw os oes ond un person mewn cant yn rhannu rhywbeth negyddol, a oes angen rhannu adborth y person hwnnw? Allwn ni ei gydnabod mewn ffordd arall?

Astudiaeth achos un

Rydych yn mynd drwy atebion yr arolwg ac yn gweld bod rhywun wedi ysgrifennu eu henw arno. Yn un o'r blychau, maen nhw wedi dweud eu bod yn cael eu bwlio yn yr ysgol. Beth ddylech chi ei wneud am hyn?

- A) Siarad â'r plentyn yn iard yr ysgol i weld ydyn nhw'n iawn.
- B) Siarad â'r athro / athrawes fel y medrant weld ydy'r plentyn yn iawn.
- C) Peidio â siarad â'r athro / athrawes oherwydd ni ddylen ni rannu gwybodaeth bersonol.
- Ch) Dweud wrth blant eraill yn y dosbarth fel y gallwch i gyd helpu.

Astudiaeth achos dau

Rydych wedi gwneud arolwg am ginio ysgol a'r cynllun yw rhannu'r canlyniadau gyda staff y ffreutur. Os yw rhywun wedi ysgrifennu nad ydyn nhw'n hoffi'r bwyd, sut ddylech chi rannu eu barn?

- A) Dweud wrth staff y gegin pwy yw'r person a beth yw eu sylwadau.
- B) Rhannu'r canfyddiadau gyda staff y gegin ond peidio ag enwi neb.
- C) Taflu'r arolwg hwnnw i ffwrdd oherwydd nid ydych yn cytuno â'r ateb ac yn meddwl bod eu sylwadau'n ddigywilydd.
- Ch) Dweud wrth staff y gegin i roi llai o fwyd iddyn nhw y tro nesaf.

Sesiwn 7 – Dadansoddi Data



Nodau ac Amcanion

Dadansoddi'r data o'r ymgynghoriad a chanfod patrymau a themâu o'r atebion.



Pa Adnoddau?

- Papur graff, prennau mesur, pensiliau a chyfrifanellau
- Neu gallech ddefnyddio gliniaduron / dyfeisiau llechi i greu graffiau
- Canlyniadau / data crai / siartiau cyfrif o Sesiwn 6
- Argraffu'r daflen Dadansoddi'r Canlyniadau (Adnodd 11)
- Argraffu a thorri allan y cardiau Data Camarweiniol (Adnodd 12)
- Argraffu ffyrdd o gyflwyno data (Adnodd 13)



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Barn y papurau neu l'ch llinellau!



Prif Weithgareddau

Ystadegau a'u neges



Gêm cardiau ystadegau camarweiniol (Adnodd 12) – beth sydd o'i le â'r ystadegau ar y cardiau? Rhewch y cardiau ar y bwrdd, wyneb i fyny. Y plant i geisio gweithio allan beth sydd o'i le arnyn nhw (atebion ar gefn y cardiau). Yna, cael trafodaeth am sut y dylen ni fod yn ofalus wrth gyflwyno data.

Gwahanol ffyrdd o gyflwyno data

Y plant i restru gwahanol ffyrdd o gyflwyno data crai, e.e. siartiau bar, graffiau, siartiau cylch, picograms, diagramau swigod.

Dangoswch enghreifftiau i'r plant a thrafod beth y maen nhw'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am bob enghraifft (Adnodd 13)

Pa rai ydyn nhw'n eu hoffi / ddim yn eu hoffi a pham? Pa rai sy'n cyflwyno canlyniadau'r arolwg orau?

Defnyddiwch un o'r 10 Gorau – Dulliau Pleidleisio i ddewis y ffyrdd gorau o gyflwyno data ar gyfer eich ymgynghoriad. Byddai Trefn Diamwnt neu Golli eich Marblis yn gweithio'n dda.



Creu mini-gyflwyniad

Defnyddiwch y siartiau cyfrif a grewyd y tro diwethaf i lunio graffiau / siartiau cylch – beth bynnag y dywedodd y plant yw'r ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth.

Pob plentyn i fod yn gyfrifol am gwestiwn ac i ddewis dull o gyflwyno canlyniadau'r cwestiwn. (Eto, os gallwch, cadwch bob plentyn ar y cwestiwn y bu'n gweithio arno o'r blaen). Rhannwch y rhain â'r grŵp.



Beth y mae'r canlyniadau'n ei ddangos / feddwl?

Dewisol yw hyn, os oes amser.
Edrychwch ar y daflen Dadansoddi'r
Canlyniadau (Adnodd 11) i weld ydy'r plant
yn gallu cwblhau'r dasg hon eu hunain.
Pam nad ydy rhai o'r geiriau'n addas?

Fedran nhw ei defnyddio gyda'r cwestiwn y
cyflwynwyd y canlyniadau ar ei gyfer?

Nid yw'r canlyniadau
yn profi dim. Dim ond
dangos beth mae rhai
pobl yn ei feddwl.

***“Gall wyth o
blant newid
cymuned”***

Caitlin



At y Tro Nesaf

Gofynnwch i'r plant feddwl gyda phwy y bydden nhw'n hoffi rhannu canlyniadau'r ymgynghoriad.

Adnodd 11 – Taflen Dadansoddi'r Canlyniadau




Llongyfarchiadau – rydych nawr wedi llwyddo i gwblhau eich holiadur a (gobeithio) wedi cael llwyth o ganlyniadau gan bawb y gwnaethoch eu holi!

Ond sut y gallwch egluro barn gymaint o wahanol bobl? Mae'n bwysig iawn meddwl am y geiriau a ddefnyddiwn i egluro canlyniadau eich holiadur.

Gofynnwyd i 117 o blant 'Beth ddylen ni ei wneud yn ein hysgol i helpu gyda'r broblem blastig?' Cawsant 4 ateb i ddewis ohonynt.

Edrychwch ar y graff isod.....



Llenwch y bylchau yn y brawddegau gan ddewis y geiriau mwyaf priodol o'r banc geiriau isod.

- 1) Mae'r graff bariau hwn yn _____ fod _____
o'r rhai a holwyd yn teimlo bod eisiau aildefnyddio plastig yn ein
hysgol.
- 2) Mae _____ eisiau i ni ddefnyddio llai o blastig yn yr
ysgol.
- 3) Mae'r canlyniadau'n _____ bod _____ ddim yn
malio.

y rhan fwyaf o bobl	pawb	y mwyafrif
rhai pobl	neb	y lleiafrif
44% o bobl	dros 50 o bobl	
nodi	awgrymu	cadarnhau
profi	dangos	amlygu

Adnodd 12 – Cardiau Data Camarweiniol

Nod y gweithgaredd hwn yw cael y plant i feddwl sut y byddant yn cyflwyno eu data crai mewn ffordd weledol, gan ddangos atebion pobl ac aros yn ffeithiol, di-ragfarn a theg.

Gellir cyflwyno'r data mewn nifer o ffyrdd ond mae rhai'n fwy defnyddiol nag eraill. Mae'r gweithgaredd hwn yn dangos bod data'n cael ei gyflwyno'n gamarweiniol weithiau.

Rhowch y cardiau wyneb i fyny ar y bwrdd. Fel grŵp, edrychwch ar y delweddau a'r ystadegau ar bob cerdyn i weld a allwch ddeall pam eu bod yn gamarweiniol. Mae'r atebion ar gefn y cardiau.

Cael trafodaeth grŵp. Dyma rai cwestiynau i gael y plant i ddechrau meddwl:

- Pam eu bod nhw'n gamarweiniol?
- Pam allai'r person a luniodd y cwestiwn fod eisiau eich camarwain chi?
- Beth yw rhagfarn?
- Sut allwn ni wneud yn siŵr nad oes rhagfarn yn y ffordd y cyflwynwn ddata ein harolwg?
- Ydy hi'n bwysig rhannu beth a ddywedodd pobl, hyd yn oed os anghytunwn?


MAE GAN
50%
O ATHRAWON
WALLT COCH



*Maint yr
arolwg: 2



P A
FWYD TECAWÊ
SYDD FWYAF POBLOGAIDD?



TSEINEAIDD



INDIAIDD

BETH YW EICH
HOFF
LIW?

GLAS

55%

COCH

45%



MAE ANGEN GWAHARDD PÊL-DROED
YN LLWYR

MAE'R RHAN
FWYAF O
BOBL YN
CYTUNO!



30% IE, DW I'N CYTUNO
25% NA, DW I'N ANGHYTUNO
25% DDIM YN SIŴR
20% EFALLAI

85%
DIFRASTER!



IOGWRT
NEWYDD IACH

YR ATEB
YDY NA!

40%

NA

35%

IE

Cerdyn 1

Mae'r siart cylch 3D fel pe bai'n dangos bod bwyd Tecawê Indiaidd yn fwy poblogaidd, er ei fod mewn gwirionedd yn ddarn llai o'r siart cylch.

Cerdyn 2

Mae sampl o 2 yn llawer rhy fach i roi canlyniadau ystyrlon neu i roi barn gyffredinol am rywbeth.

Cerdyn 3

Mae hwn yn honni hyn yn gamarweiniol oherwydd dim ond 30% sy'n cytuno'n llwyr.

Roedd 70% o bobl heb ddweud 'IE'.

Cerdyn 4

Mae hyn yn gwneud iddo edrych fel bod glas yn llawer mwy poblogaidd nag ydoedd mewn gwirionedd oherwydd roedd mwy o'r blwch yn las a'r gair 'GLAS' yn fwy.

Cerdyn 5

Mae'r graff hwn yn gwneud iddo edrych fel bod mwy o bobl wedi dweud 'NA' nag 'IE'.

Ond nid oedd llawer o wahaniaeth oherwydd dywedodd 36% 'IE' a dywedodd 40% 'NA'.

Cerdyn 6



Mae'r hysbyseb hwn ar gyfer iogwrt newydd iach yn awgrymu ei fod yn peth da ei fod yn 85% Difraster.

Ond mae'n gamarweiniol oherwydd mae 85% Difraster yn golygu bod 15% o fraster ynddo. Mae hefyd yn dangos lluniau o ffrwythau i wneud i chi feddwl ei fod yn iach.

Adnodd 13 – Ffyrdd o gyflwyno data



Enghreifftiau o wahanol siartiau y gellir eu creu gyda Microsoft Word neu feddalwedd tebyg.



Sesiwn 8 – Rhannu eich Canlyniadau!



Nodau ac Amcanion

Penderfynu gyda phwy yr ydych eisiau rhannu canlyniadau'r ymgynghoriad.



Pa Adnoddau?

- Y data a ddadansoddwyd o'r sesiwn ddiwethaf.
- Cardiau wedi eu torri allan neu nodiadau post-it
- Argraffwch "10 Gorau – Gyda Phwy i Rannu'r Canfyddiadau"
- Diagram Venn – Adnodd 14
- Cardiau seren – Adnodd 15 – Wedi eu llungopïo a'u torri'n setiau



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Choeliwch chi byth! neu Hunan-bortread



Prif Weithgareddau

Gyda phwy i rannu?



Ewch dros y sesiwn ddiwethaf – beth oedd eich graffiau / siartiau cylch yn ei ddangos?

Gwnewch restr o bawb, o Mam a Dad i'r Prif Weinidog, y gallech rannu eich canlyniadau gyda nhw, ar ddarnau o gerdyn wedi'i dorri allan / nodiadau post-it. Ewch i'r 10 Gorau – Rhannu ein Canfyddiadau, am awgrymiadau.

(Bydd gweddill y sesiwn hon yn canolbwyntio ar gulhau eich rhestr o bobl i rannu'r wybodaeth â nhw).

Rhowch y cardiau / nodiadau post-it mewn diagram Venn (Adnodd 14). Nod y gweithgaredd yw helpu'r plant i benderfynu a ddylid targedu cymuned yr ysgol neu'r gymuned ehangach.

Beth am greu eich diagram Venn eich hun yn defnyddio'r hŵps chwaraeon ar y llawr.



Cardiau Seren

I helpu'r plant i benderfynu pwy fyddai'r bobl orau i rannu'r canlyniadau gyda nhw, byddwch yn chwarae gêm o Gardiau Seren.

Llungopiwch y cardiau (Adnodd 15) a'u torri allan fel bod gan bob plentyn set gyflawn. Bydd rhai cardiau gwag fel bo'r plant yn gallu ychwanegu cymeriadau eraill a allai fod yn berthnasol i rannu'r canlyniadau â nhw.

Bob un plentyn i roi sgôr allan o 10 am bob un o sgiliau'r cymeriadau ar y Cardiau Seren. Mwya'n byd yw'r sgôr, gorau'n byd. Ar ôl gwneud hyn, dylent rannu'n barau neu'n grwpiau o dri ar gyfer gêm o Gardiau Seren.

Ar ôl i'r gemau orffen, dylid cael trafodaeth i weld a oedd cerdyn penodol yr oedd y plant i gyd yn cytuno ei fod yn "Gerdyn Seren". Efallai mai'r person hwn felly yw'r un i rannu eich canlyniadau â nhw.

Ar sail y gweithgareddau, dewiswch un o'r 10 Gorau – Dulliau Pleidleisio i benderfynu pwy yw'r bobl orau i rannu'r canlyniadau â nhw. Byddai [Wedi Dotio](#) neu [Colli eich Marblis](#) yn gweithio'n dda.

“Mae Darganfod Eich Llais wedi rhoi cyfle i mi gyfarfod a siarad â phobl bwysig.”

Teagan




At y Tro Nesaf

Ceisiwch annog y plant i feddwl sut y byddant yn rhannu'r wybodaeth yma.

Adnodd 14 – Diagram Venn



Pwy yw ein cynulleidfa? Ydyn nhw'n rhan o gymuned yr ysgol, y gymuned leol, neu'r ddwy?



the 1990s, the number of people in the world who are undernourished has increased from 250 million to 800 million (FAO 2001). The number of people who are obese has increased from 100 million in 1975 to 300 million in 1995 (WHO 1997). The prevalence of obesity in the United States has increased from 15% in 1976 to 30% in 1994 (Flegal et al. 1994). The prevalence of obesity in the United Kingdom has increased from 10% in 1980 to 20% in 1995 (Health Survey for England 1996).

Obesity is a complex condition, and the aetiology is multifactorial. The most commonly cited aetiological factors are genetic, environmental, and behavioural. The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity.

The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity. The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity.

The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity. The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity.

The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity. The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity.

The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity. The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity.

The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity. The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity.

The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity. The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity.

The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity. The genetic aetiology of obesity is complex, and the environmental aetiology is multifactorial. The behavioural aetiology of obesity is multifactorial, and the most commonly cited behavioural factors are diet and physical activity.

Adnodd 15 – Cardiau Seren



EICH DEWIS CHI	EICH DEWIS CHI	EICH DEWIS CHI	EICH DEWIS CHI
Perthnasol i'r arolwg	Perthnasol i'r arolwg	Perthnasol i'r arolwg	Perthnasol i'r arolwg
Y pŵer i newid pethau	Y pŵer i newid pethau	Y pŵer i newid pethau	Y pŵer i newid pethau
Hawdd cysylltu â nhw	Hawdd cysylltu â nhw	Hawdd cysylltu â nhw	Hawdd cysylltu â nhw
Sgîl arbenig	Sgîl arbenig	Sgîl arbenig	Sgîl arbenig

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

AELOD CYNULLIAD



Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

RHIANFANT




Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

YR HEDDLU



Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

STAFF YR YSGOL




Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

Y CYFRYNGAU



Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

CYNGHORFYDD




Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

DISGYBL



Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

ARWEINLYDD CYMUNEDDOL



Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

LITWODRAETHWR




Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

Y COMISTYNYDD PLANT



Perthnasol i'r arolwg

Y pŵer i newid pethau

Hawdd cysylltu â nhw

Sgîl arbennig

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

**Cardiau
Seren**

Sesiwn 9 – Cyflwyno Creadigol



Nodau ac Amcanion

Chwilio am ffyrdd creadigol o gyflwyno'r wybodaeth a gasgloch ynghyd.



Pa Adnoddau?

- Argraffwch y 10 Gorau – Cyfathrebu eich Canlyniadau a'r 10 Gorau – Ffyrdd o Gyflwyno ein Canfyddiadau
- Siart troi a phinau ysgrifennu
- Argraffwch gopiau o'r Rhestr Wirio Helfa Wybodaeth – Adnodd 16
- Pinau ysgrifennu a chlipfyrddau (dewisol)



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Gwe o gwestiynau neu Taith gryfderau.



Prif Weithgareddau

Efallai eich bod eisoes wedi penderfynu sut y byddwch yn cyflwyno eich gwybodaeth. Os felly, ewch yn syth i Sesiwn 10.

Ewch dros ein 10 Gorau – Cyfathrebu eich Canlyniadau a siarad drwy hyn. A fyddai'r plant yn hoffi ychwanegu rhai? Pa rai sydd bwysicaf yn eu barn nhw?



Helfa Wybodaeth

Ewch am dro o gwmpas yr ysgol (gyda chlipfyrddau os oes rhai) i weld y gwahanol ffyrdd y mae gwybodaeth wedi cael ei chyflwyno, e.e. taflenni, fideos, arddangosfa, llyfrynau, posteri ac yn y blaen. Pa rai yn eu barn nhw oedd y rhai mwyaf effeithiol a pham?

Wrth fynd o gwmpas yr ysgol, dylai'r plant gyfeirio at y rhestr wirio (Adnodd 16) i asesu pa wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno orau. Medrant benderfynu rhoi tic neu groes yn y blwch, gan ddibynnu ar eu barn.

Dewis ffordd o gyflwyno ein canfyddiadau

Gyda'r plant, ewch ati i greu map meddwl o awgrymiadau ar gyfer arddangos y wybodaeth. Cofiwch gyfeirio'n ôl at y sesiwn ddiwethaf pan ddewiswyd y gynulleidfa darged a meddwl sut y byddai'r ffordd o gyflwyno'r wybodaeth yn apelio atynt.

Am awgrymiadau, ewch i'r 10 Gorau – Ffyrdd o Gyflwyno Ein Canfyddiadau.


Os oes amryw o awgrymiadau, grwpïwch y rhai tebyg gyda'i gilydd. h.y. gallai taflenni a phosteri fynd gyda'i gilydd.

Dylid trafod manteision ac anfanteision pob un.

Ar ôl llunio rhestr fer o tua 4-5 o syniadau, mae'n amser pleidleisio dros yr un y byddwch yn ei ddefnyddio i gyflwyno eich canfyddiadau. Defnyddiwch un o'r dulliau pleidleisio i benderfynu (byddai Sbectrwm, Pleidlais Gudd neu Pêl-droed 'taflu allan' yn gweithio'n dda).

***“Byddwn yn argymhell
Darganfod Eich
Llais oherwydd mae
rhywun yn dod yn
rhan o grŵp pwysig.”***

Mehreen



At y Tro Nesaf

Gofynnwch i'r plant feddwl am amser y gwnaeth dull o gyflwyno gwybodaeth argraff dda arnynt. Beth oedd mor gofiadwy amdano?

Adnodd 16 – Rhestr Wirio Helfa Wybodaeth



Ewch â'r rhestr yma gyda chi o gwmpas yr ysgol.

Chwiliwch am bosteri, arddangosfeydd, taflenni ac unrhyw ffordd arall y cafodd gwybodaeth ei chyflwyno. Ewch drwy'r rhestr i weld pa mor dda y cawsant eu dylunio...

1.	Ydy'r wybodaeth yn glir a hawdd ei ddeall? Ydy o'n gwneud synnwyr?	
2.	Ydy o'n ddifyr ac yn denu'r llygad? A fydd gan bobl ddiddordeb?	
3.	Ydy o'n gyfrinachol? (dim enwau na manylion y cyfranogwyr)	
4.	Ydy o wedi'i gyflwyno gyda'r gynulleidfa mewn golwg?	
5.	Ydy o'n ffeithiol a phenodol? Ydy o'n cynnwys data ac ystadegau ymchwil?	
6.	Ydy o'n hawdd ei rannu?	
7.	Ydy o'n tynnu sylw?	
8.	Ydy o'n cynnwys neges glir?	
9.	A oes gormod o eiriau? Ydy o'n rhy gymhleth?	
10.	Ydy o'n cadw at y pwynt? Ydy o'n berthnasol?	

Sesiwn 10 – Dangos Eich Hun!



Nodau ac Amcanion

Cyflwyno eich canfyddiadau yn y fformat a ddewisoch.



Pa Adnoddau?

- Argraffwch ‘Beth sydd angen bod mewn adroddiad?’ Adnodd 17
- 10 Gorau – Cyfathrebu'r Canlyniadau
- Atodiad 1 Striped Comic



Gweithgaredd Torri'r Rhew

Hunan-bortread neu [Ras grocodeil](#)



Prif Weithgareddau

Cyflwyno eich Canfyddiadau

Erbyn hyn bydd yr ymgynghori ar ben, y canlyniadau wedi eu dadansoddi a gallwch weld beth y maen nhw yn ei ddangos (neu ddim yn ei ddangos)! Byddwch wedi meddwl gyda phwy i rannu'r canlyniadau ac wedi dewis sut i rannu'r canlyniadau.

Mae'r sesiwn hon yn ymwneud â threulio amser yn cyflwyno eich canfyddiadau yn y fformat a ddewisoch.

Yn amlwg, bydd y sesiwn yn dibynnu ar beth a ddewisoch ond dyma enghraifft o'r sesiwn a wnaethon ni:

***“Mae Darganfod
Eich Llais wedi fy
helpu i gredu ynof
fy hun.”***

Libby





Astudiaeth Achos

Yn sesiwn 9 fe bleidleisiodd y plant o Ysgol Millbrook dros gyflwyno eu canfyddiadau ar ffurf stribed comic. (Gweler Atodiad 1 am fersiwn derfynol y stribed comic).

Edrychwch ar Adnodd 17 gyda'r plant. A oes gan y stribed comic gyflwyniad, canol a diwedd? Ydy hi'n glir pa faterion a gododd o'r ymgynghoriad a beth y mae'r plant eisiau ei wneud am y peth? Wrth gyflwyno eich canlyniadau, bydd angen i chithau hefyd gael dechrau, canol a diwedd.

Ewch drwy'r 10 Gorau – Cyfathrebu'r Canlyniadau – ydy'r stribed comic yn cyflawni unrhyw un o'r rhain?



Eich Cyflwyniad



Treuliwch amser yn creu eich cyflwyniad. Bydd yn edrych yn wahanol ym mhob ysgol ac yn dibynnu ar sut fath o arolwg a wnaethoch a gyda phwy y mae'r plant eisiau rhannu'r wybodaeth.

Dylid rhoi tasgau penodol i grwpiau o'r plant – rhai i ganolbwyntio ar y dechrau, eraill ar y canol a'r lleill ar y diwedd. Cofiwch y 10 Gorau – Cyfathrebu'r Canlyniadau, a'r wybodaeth yn Adnodd 17.

Byddwch yn greadigol gyda'ch cyflwyniad – os gallwch ddefnyddio adnoddau ehangach cymuned yr ysgol (rhieni, cysylltiadau ac ati), gallwch efallai ddod o hyd i rywun i ddylunio stribed comic i chi, i wneud fideo neu i gynhyrchu taflen!

Pob lwc gyda chyflwyno eich canfyddiadau a gobeithio y gallwch eu defnyddio i newid pethau er gwell yn eich cymuned.



Adnodd 17 – Beth sydd angen bod mewn adroddiad?



Cyflwyniad



Canol



Diwedd

Dylai'r **cyflwyniad** gynnwys:

- Pam y gwnaethoch eich ymchwil a thestun yr ymchwil
- I bwy wnaethoch ofyn eich cwestiynau, a sut y gwnaethoch eu gofyn
- Faint o bobl a gymerodd ran

Dylai'r darn **canol** gynnwys:

- Y **prif** bethau y gwnaethoch eu canfod
- Eich barn chi am beth wnaethoch ei ganfod

Dylai'r **diwedd** gynnwys

- Beth ddylai ddigwydd nesaf yn eich barn chi
- Unrhyw syniadau gennych am fwy o ymchwil sydd angen ei wneud yn eich barn chi, sy'n gysylltiedig i'r ymchwil a wnaed ond nad ydych wedi gallu ei ateb.

Gweithgaredd torri'r rhew – Dod o hyd i rywun...



Pob plentyn i gael grid gyda chyfres o ddatganiadau arno. Y plant i fynd o gwmpas yr ystafell a dod o hyd i rywun i ateb pob datganiad, gan ysgrifennu enw'r person yn y grid a'u hateb.

Ar ôl gorffen y grid, gyda pherson gwahanol i bob sgwâr, os medrant dylent weiddi BINGO! Y cyntaf i orffen sy'n ennill.

Dod o Hyd i Rywun...

Sydd ag anifail anwes Enw	Sy'n unig blentyn Enw	Sy'n hoffi Fortnite Enw	Sy'n hoffi darlunio Enw
Sy'n gallu cyrllo eu tafod Enw	Sy'n hoffi sbrowts Enw	Sy'n mwynhau dawnsio Enw	Sy'n gallu siarad mwy na dwy iaith Enw
Sy'n gallu gwneud sleim cartref Enw	Sydd wedi bod ar wyliau Enw	Sy'n mwynhau chwaraeon Enw	Sy'n gallu cyffwrdd blaenau eu traed Enw

Dod o Hyd i Rywun...

Sydd ag anifail anwes Enw	Sy'n unig blentyn Enw	Sy'n hoffi Fortnite Enw	Sy'n hoffi darlunio Enw
Sy'n gallu cyrllo eu tafod Enw	Sy'n hoffi sbrowts Enw	Sy'n mwynhau dawnsio Enw	Sy'n gallu siarad mwy na dwy iaith Enw
Sy'n gallu gwneud sleim cartref Enw	Sydd wedi bod ar wyliau Enw	Sy'n mwynhau chwaraeon Enw	Sy'n gallu cyffwrdd blaenau eu traed Enw

Gweithgaredd torri'r rhew – Cyfarfod a chymysgu



Pob person i afael mewn fferins neu siocledi lliw. Dywedwch na ddylid eu bwyta (eto!) Os nad yw hyn yn addas, gallech ddefnyddio sticeri lliw.

Rhowch ystyr gwahanol i bob lliw:

Glas = teulu

Gwyrdd = ysgol

Melyn = ffrindiau

Coch = diddordebau

Brown = miwsig / sinema

Faint bynnag o fferins / sticeri sydd ganddynt yn eu dwylo, dyna faint o ffeithiau sy'n rhaid iddynt eu dweud. Er enghraifft, os oes ganddynt dri glas, rhaid iddynt ddweud tair ffaith am eu teulu.

Gweithgaredd torri'r rhew – Taith gryfderau



Mae gan bawb ychydig o ddalenni o bapur A4 plaen. Ar eu papur, y plant i ysgrifennu eu cryfderau, eu galluoedd a'u talentau. Medrant ysgrifennu ar gymaint o ddarnau o bapur ag y dymunant.

Ar ôl gorffen, pawb i sefyll ar un ochr i'r ystafell.

Dylid egluro bod y llawr wedi troi'n lafa ac mai'r unig ffordd o groesi'r ystafell yw drwy sefyll ar eu darnau o bapur. Dim ond darnau papur gyda phethau da arnynt y gellir sefyll arnynt.

Heb gyffwrdd â'r llawr, rhaid i bawb groesi'r ystafell. Os oes angen mwy o bapur i groesi'r ystafell, rhaid i'r grŵp weithio gyda'i gilydd i gydnabod cryfderau ei gilydd a'u rhoi ar bapur.

Trafodaeth

- A allai un person fod wedi cyfrannu digon i groesi'r lafa ar eu pen eu hunain?
- A gafodd unrhyw un drafferth yn ysgrifennu pethau da amdanynt eu hunain?
- Pa gryfderau a roddodd y lleill ar bapur na wnaethoch eu rhoi eich hun?
- Pa gryfderau oedd gan y plant fel grŵp?

Gweithgaredd torri'r rhew – Ras crocodeil!



Rhannu'n ddau grŵp – dau dîm fyddai'n gweithio orau.

Y plant i sefyll mewn llinell a rhoi eu dwylo ar ysgwyddau'r person o'u blaen.

Y llinell i grwcd i lawr ac edrych fel crocodeil.

Pan ddywedwch “Ewch!” y llinellau i rasio ei gilydd i bwynt penodol – yno ac yn ôl os dymunwch.

Rhaid i'r llinellau aros yn eu siâp ac i gyffwrdd ei gilydd.

Y tîm cyntaf i gyrraedd y llinell sy'n ennill y ras.

Gweithgaredd torri'r rhew – I'ch llinellau!



Gofynnwch i'r plant sefyll mewn llinell.

Rhaid i'r plant fynd i'r drefn iawn ond nid ydynt yn cael siarad â'i gilydd. Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu i wella sgiliau cyfathrebu dieiriau oherwydd rhaid i'r plant gyfathrebu mewn ffyrdd eraill, e.e. dwylo, arwyddion, gwneud stumiau.

Y plant i sefyll mewn llinell, yn ôl:

- Trefn taldra
- Y mis y cawsant eu geni – Ionawr ar un ochr i'r ystafell gan ymestyn drosodd i Ragfyr ar ochr arall yr ystafell.
- Rhif tŷ eu cartrefi – o'r lleiaf i'r mwyaf.
- Faint o anifeiliaid anwes sydd ganddynt – y nifer fwyaf i'r lleiaf.
- Am faint o eiliadau y maen nhw'n meddwl y medrant sefyll ar un goes – o'r mwyaf i'r lleiaf (profwch hynny).



Gweithgaredd torri'r rhew – Ysgwn i pwy?



Rhannwch yn ddau dîm. Rhowch ddarn o gerdyn gwag i bob person. Gofynnwch iddynt ysgrifennu pump o ffeithiau amdanynt eu hunain na fydd pobl eraill efallai'n eu gwybod. Gall athrawon chwarae'r gêm hon hefyd.

Er enghraifft, mae gen i igwana anwes, cefais fy ngeni yng Ngwlad yr Iâ, fy hoff fwyd ydy sbinaits, enw fy nain ydy Doris a fy hoff liw ydy porffor. (Mae'n debyg y byddai'n syniad da rhoi enghreifftiau fel y rhai uchod i'r plant).

Casglwch y cardiau'n ddau bentwr.

Tynnwch allan un cerdyn o bentwr y tîm arall.

Bydd pob tîm yn ceisio enwi'r person gyda chyn lleied o gliwiau â phosib. 5 pwynt os ydyn nhw'n adnabod y person gyda'r cliw cyntaf, yna 4, 3, 2, 1, 0. Y tîm gyda'r mwyaf o bwyntiau sy'n ennill.

(Cofiwch: os dewiswch y ffeithiau mwyaf anhysbys yn gyntaf, bydd yn fwy cystadleuol a bydd yna grafu pennau go iawn!)

Gweithgaredd torri'r rhew – Gwe o gwestiynau



Bydd angen pelen o gortyn neu edafedd ar gyfer y gêm hon. Gofynnwch i'r plant sefyll mewn cylch. Gafaelwch yn un pen i'r cortyn a thaflu'r belen i un o'r plant i'w dal. Yna maen nhw'n dewis cwestiwn rhwng 1-20 i'w ateb. Rhoddir rhestr o 20 o gwestiynau enghreifftiol isod (cofiwch y gallwch ddefnyddio rhai eich hun).

Yn gafael yn y cortyn, maen nhw yna'n taflu'r belen i aelod arall o'r grŵp. Yn y diwedd mae'n creu gwe a bydd y plant hefyd wedi dysgu pethau difyr am ei gilydd! Ar ddiwedd y gêm, gallwch ddweud fod pawb wedi cyfrannu at greu'r we unigryw hon a phe bai un person ar goll y byddai'n edrych yn wahanol.

Yn yr un ffordd, mae'n bwysig i ni gyd gymryd rhan i wneud y grŵp yr hyn ydyw, sef unigryw ac arbennig.

1. Pe bai gennych beiriant amser a fyddai ond yn gweithio unwaith, i ba bwynt yn y dyfodol neu mewn hanes y byddech chi'n mynd?
2. Pe gallech fynd i rywle yn y byd, i ble byddech chi'n mynd?
3. Pe bai eich tŷ ar fin llosgi i'r llawr, pa dri pheth y byddech chi'n ceisio eu hachub?
4. Pe gallech siarad ag unrhyw berson sy'n dal i fod yn fyw, pwy a pham?
5. Pe bai'n RHAIID i chi roi'r gorau i un o'ch synhwyrâu (clywed, gweld, teimlo, arogli, blasu), pa un a fyddai a pham?
6. Pe byddech yn gallu bod yn anifail, pa un a pham?
7. A oes gennych anifail anwes? Os na, sut fath o un fydddech chi'n hoffi?
8. Pa anrheg na fyddwch byth yn anghofio ei gael?
9. Pa un peth amdanoch eich hun ydych chi'n ei wir hoffi.
10. Beth yw eich hoff beth i'w wneud yn yr haf?
11. Pwy yw eich hoff gymeriad cartŵn a pham?

-
12. A oes ystyr arbennig i'ch enw, neu a gawsoch eich enwi ar ôl rhywun arbennig?
 13. Beth yw'r peth anoddaf i chi ei wneud erioed?
 14. Os ydych yn cael bwyd yn nhŷ ffrind neu berthynas ac yn dod o hyd i bryf wedi marw yn eich salad, beth fydddech chi'n ei wneud?
 15. Beth yw'r peth gorau a ddigwyddodd i chi yn yr wythnos ddiwethaf?
 16. Pe gallech fyw'r wythnos hon eto, beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol?
 17. Beth sy'n dod i'ch meddwl gyntaf wrth feddwl am y Nadolig?
 18. Beth yw'r peth rhyfeddaf i chi ei fwyta erioed?
 19. Pe gallech newid un broblem yn y byd heddiw, beth fyddai?
 20. Pa lyfr, ffilm neu fideo fydddech chi'n ei argymhell ar ôl eu gweld / darllen yn ddiweddar? Pam?

Gweithgaredd torri'r rhew - Barn y papurau



Rhannwch yn dimau a rhoi copi o'r UN UN papur newydd i bob grŵp.

Gofynnwch iddynt agor y papur newydd allan o flaen bob tîm.

Disgrifiwch hysbyseb, erthygl, ffaith neu lun o'r papur a rhaid i'r grŵp ddod o hyd iddo, ei rwygo allan a dod â fo atoch. Mae'r tîm cyntaf i wneud yn cael pwynt. Cariwch ymlaen i alw pethau allan a'r tîm buddugol yw'r un gyda'r mwyaf o bwyntiau. Bydd yr awyr yn llawn papur!

Gweithgaredd torri'r rhew – Hunan-bortread



Bydd angen papur a phensiliau arnoch.

Gofynnwch i'r plant wneud hunan-bortread. Peidiwch â gadael i neb arall yn yr ystafell weld y llun.

Ar ôl gorffen, plygwch y lluniau a'u rhoi yng nghanol y bwrdd / llawr (ble bynnag yr ydych).

Yn gwbl ar hap, agorwch lun a cheisio dyfalu pwy yw'r person.

Roedd y plant wrth eu bodd yn gwneud hyn!

Gweithgaredd torri'r rhew – Choeliwch chi byth!



Pob plentyn i ysgrifennu ffaith amdanynt eu hunain ar ddarn o bapur na fyddai neb arall yn yr ystafell yn ei wybod.

Sgrwnsiwch y papur a'i roi mewn basged / het / cynhwysydd.

Tynnwch un darn o bapur allan ar y tro a'i ddarllen allan – allwch chi ddyfalu am bwy y mae'n sôn?!

Deg Gorau – Syniadau Arolwg

1. Amgylchedd
2. Lles
3. Iechyd meddwl
4. Materion penodol i'r ysgol
5. Hawliau plant
6. Materion penodol i'r gymuned
7. Chwaraeon, chwarae
a hamdden
8. Bwyta'n iach
9. Ailgylchu
10. Bwlio

Deg Gorau – Dulliau Pleidleisio

1. Hwla-hwŵp

Rhowch ddwy hwla-hwŵp ar y llawr drws nesaf at ei gilydd ond yn gorgyffwrdd. Y syniad yw creu ‘Diagram Venn’. Gall y plant ddewis rhwng tri opsiwn, e.e. ie, na a ddim yn siŵr.

2. Stumiau emoji

Y plant i ddewis rhwng gwahanol opsiynau drwy dynnu llun emoji wrth ymyl pob opsiwn i ddangos sut y maen nhw’n teimlo am bob un. Neu gallech ddefnyddio sticeri emoji neu sticeri wynebâu gwenu / trist.

3. Codi llaw

Gofynnwch iddynt godi llaw i ddangos a ydyn nhw’n cytuno neu’n anghytuno â gwahanol opsiynau / dewisiadau. Neu bawd i fynny / lawr / yn y canol.

4. Wedi dotio

Rhowch nifer benodol o ddotiau gludiog i bob plentyn. Bydd y plant yn gludo’r dotiau wrth eu hoff opsiwn / opsiynau. Medrant roi eu dotiau i gyd wrth un opsiwn, neu eu gwasgaru rhwng rhai gwahanol.

5. Pleidlais gudd

Y plant i bleidleisio dros eu hoff opsiwn neu opsiynau drwy nodi eu dewis ar ddarn o bapur, ei blygu a’i roi mewn blwch pleidleisio. Yr oedolyn i wagio’r blwch a chyfri’r pleidleisiau.

6. Trefn diamwnt

Mae hwn yn ddull pleidleisio da lle mae wyth neu fwy o opsiynau i ddewis rhyngddynt. Ysgrifennwch y dewisiadau ar ddarnau bach o gerdyn. Y plant i osod eu dewisiadau mewn trefn, o’r rhai sydd fwyaf hoff i’r lleiaf hoff ganddynt, gan drafod bob un wrth fynd. Bydd y cardiau’n creu siâp diamwnt a’r cerdyn ar flaen y diamwnt yw’r opsiwn sydd fwyaf hoff ganddynt.

7. Sbectrwm

Y plant i sefyll mewn ardal arbennig o’r ystafell gan ddibynnu ar eu barn / hoff opsiwn. Er enghraifft, y rhai sy’n cytuno’n gryf i sefyll wrth y drws; y rhai sy’n anghytuno’n gryf i sefyll wrth y ddesg neu rywle yn y canol.

8. Colli eich marblis

Y plant i gael pump o farblis yr un a'u defnyddio i bleidleisio dros y gwahanol opsiynau – sef jariau gyda labeli arnynt. Gall y plant roi'r pum marblen mewn un jar, neu rai ym mhob un, gan ddibynnu ar eu hoff opsiynau. Beth am ddefnyddio siocledi i wneud pethau'n flasus? Mae'r llun isod yn dangos enghraifft.

9. Trefnu yn ôl yr opsiynau mwyaf neu leiaf hoff ganddynt

Ysgrifennwch neu argraffwch wahanol opsiynau ar gardiau a'u torri allan. Y plant i drefnu'r dewisiadau o'r cyntaf i'r olaf, gan ddibynnu ar ba rai sydd fwyaf neu leiaf hoff ganddynt.

10. Pêl-droed 'taflu allan'

Y plant i bleidleisio dros wahanol opsiynau o restr. Mae'r opsiwn gyda'r lleiaf o bleidleisiau'n cael ei 'daflu allan' o'r cwpan. Y plant i bleidleisio eto gydag un arall yn cael ei daflu allan o'r gystadleuaeth. Mae'r broses yn parhau tan y bydd ond un ar ôl, sef yr enillydd.



Deg Gorau - Ffyrdd o gyflwyno ein canfyddiadau

1. Gwasanaeth ysgol
2. Taflenni / llyfrynnau
3. Mewn cerdd
4. Jigso
5. Fideo
6. Gêm (ar-lein neu gêm fwrdd / cardiau)
7. Chwarae
8. Mewn cân
9. Llyfr comic
10. Bwrdd arddangos

10 Gorau - Gyda phwy i rannu'r canlyniadau

1. Rhieni
2. Disgyblion
3. Athrawon a staff yr ysgol
4. Llywodraethwyr
5. Cynghorwyr
6. Aelodau Cynulliad / Seneddol
7. Maer / arweinydd cymunedol
8. Heddlu / Comisiynydd yr Heddlu
9. Comisiynydd Plant
10. Y cyfryngau

Deg Gorau - Cyfathrebu canlyniadau eich ymgynghoriad

1. Ydy'r wybodaeth yn **glir** a hawdd ei ddeall? Ydy o'n gwneud synnwyr?
2. Ydy o'n **ddifyr** ac yn denu'r llygad? A fydd gan bobl ddiddordeb?
3. Ydy o'n **gyfrinachol** (dim enwau na manylion y rhai sy'n cymryd rhan)
4. Ydy o'n targedu'r **gynulleidfa** iawn – pwy ydy'r bobl hyn?
5. Ydy o'n **ffeithiol** a phenodol? Ydy o'n cynnwys data ac ystadegau o'ch ymchwil?
6. Ydy o'n hawdd ei **rannu**? Ydy o'n hawdd i'w rannu â'ch cynulleidfa?
7. Ydy o'n **tynnu sylw**?
8. Ydy o'n cynnwys neges **glir**?
9. **Dim gormod o eiriau**
10. Cadwch at y pwynt – ydy o'n **berthnasol**?

Mynegai eiconau

Eiconau



Nodau ac Amcanion



Pa adnoddau?



Gweithgaredd torri'r rhew



Trafod



Gweithgaredd



At y tro nesaf

Sgiliau wedi eu gwella yn y sesiwn



Y celfyddydau mynegiannol



Mathemateg a rhifedd



Iechyd a lles



Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu



Gwyddoniaeth a thechnoleg



Dyniaethau

Llyfryddiaeth ac adnoddau pellach

Deddfwriaeth a pholisi perthnasol

UNCRC (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)

Adroddiad Donaldson

Adroddiadau thematig ESTYN

Amcanion Llesiant y NCC

Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Rheoliadau Cyngorau Ysgol 2005

Dolenni defnyddiol ar gyfer adnoddau a darllen pellach

Ymrwymiad Barnardo's i gynnwys plant a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau <https://www.barnardos.org.uk/what-we-do/voice-influence-young-people>

Mae gan wefan Hawliau Plant Cymru gyfoeth o adnoddau, ffilmiau, gemau a gwybodaeth am yr UNCRC a hawliau plant.

<http://www.hawliauplant.cymru/>

Rhaglen yw Uwch-Genhadon wedi'i datblygu gan Gomisiynydd Plant Cymru sy'n ceisio hyrwyddo hawliau plant a'r UNCRC mewn ysgolion.

<https://www.complantcymru.org.uk/ein-cynlluniau/cynradd/>

Rhaglen yw Lleisiau Bach: Little Voices i rymuso plant i fod yn ymchwilyr ac i eiriol dros a hyrwyddo eu hawliau. <https://www.lleisiaubach.org/home>



Dogfennau Cyfeiriol

Donaldson, Yr Athro Graham, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015) <https://gweddi.gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf>

ESTYN, 'Lleisiau Disgyblion yn Llywio'r Cwricwlwm', Mawrth 2018, https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/lleisiau-disgyblion-yn-llywio%E2%80%99r-cwricwlwm?_ga=2.187169067.2094012110.1558340479-2114666839.1557406800

ESTYN, 'Gwella dysgu trwy gyfranogiad disgyblion' Mawrth 2014, <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/gwella-dysgu-trwy-gyfranogiad-disgyblion>

Hart, Roger, *Children's participation: From tokenism to citizenship* (1992)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), fideo ar gael yn <https://www.youtube.com/watch?v=rFeOYlxJbmw>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyngor Dinas Casnewydd, 'Cynllun Llesiant Casnewydd 2018 – 2023', Mai 2018, <http://www.newport.gov.uk/documents/One-Newport/Local-Well-being-Plan-2018-23-Welsh-Final.pdf>

UNCRC (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn), (1989)

Rheoliadau Cyngorau Ysgol 2005 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/3200/pdfs/wsi_20053200_mi.pdf

Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol <https://dysgu.llyw.cymru/docs/learningwales/publications/160831-dcf-your-questions-answered-cy.pdf>

Cwricwlwm newydd i Gymru: Chwe Maes Dysgu

Atodiad 1 – Enghraifft o gyflwyno canlyniadau – Millbrook



Atodiad 2 – Enghraifft o holiadur – Millbrook

**Credwch
mewn plant
Believe in
children**



**Barnardo's
Cymru**

**Millbrook Primary School
Questionnaire
Children First**






Save the Children

onenewport
casnewydd **yn
un**

**Improving the life experiences of children in their
community.**

Where can you go for help in your community?



Circle your answer. Draw or write any other places
you go for help in your community.

Who can you talk to for help?



Police



Teacher



Friends




Family



Doctor / Nurse




Helper / Counsellor /
Therapist.



Colour in your answers or draw / write your own.

What do you think people
might need help with?



Draw or write your answers in
the boxes.

Cat lives in Bettws. What help is around for Cat?



Draw or write your answers in the

Services



Services are places you can go or people you can see to get help , support or



information . They can be places where everyone goes like school and doctors or



places that only some people go like playgroup youth club or centres for people



with disabilities . They also include the emergency services and transport like buses .

Are you happy with the services in your community?



Yes



No



Not Sure

Circle your answer.

Is there something you would like to add to the community?



Yes



No



Not Sure

Circle your answer.

Use this box to draw or write anything you would like to add to your community.



What are the problems in our community?

Park 	Broken glass 	Litter 	Graffiti 	Dog mess 	Nightingale 	Gangs 	Smoking 
							
Alcohol 							
							

Please tick your answers

What are you really proud of in your community?




Please draw or write your answer.

Would you like to get involved in your community?



Circle your answer.

If you would like to get involved in your community please draw or write how you would like to do this.



**Credwch
mewn plant
Believe in
children**



Barnardo's
Cymru



Thank you for taking part
Do you have any comments?




Save the Children



Comments:

Atodiad 3 – Enghraifft o ganlyniadau arolwg – Pillgwenlly



PILLGWENLLY
PRIMARY SCHOOL

CHILDREN FIRST



Credwch
mewn plant
Believe in
children



Barnardo's
Cymru



Save the Children


one newport
casnewydd



Improving the life experiences of children in their
community.


WHERE CAN YOU GO FOR HELP AND SUPPORT IN YOUR COMMUNITY?

Police Station	76
Hospital	12
Doctors	8
Family	12
Pill Mill	7
School	21
Friends	6
Social Services	11
Newport Centre	1
Shops	4
Council	8
Fire Service	5
Job Centre	2




WHO CAN YOU TALK TO FOR HELP?

Police	34
Teachers	67
Family	71
Friends	34
Mini Police	4
Social Services	2
Council	3
Pill Mill	2
YMCA	1
Doctors	3
Neighbours	2




WHAT DO YOU THINK PEOPLE MIGHT NEED HELP WITH?

Finances	16
Disabilities	12
Work	24
Health/ Mental Health	20
Family problems	6
Languages	5
Help for Pensioners	4
Anti-social behaviour	16
Parenting	6
Loneliness	6
Environmental issues	5




WHAT HELP IS AROUND?

Police	41
Mini Police	5
Hospital	21
Teachers	16
Friends	21
Family	11
Doctors	23
Social Services	6
Banks	4
Council	2
Job Centre	4
Medical	4
Care homes	3
Fire station	7




WHAT SERVICES ARE NOT WORKING IN YOUR COMMUNITY?

Ambulance	6
Wifi	11
Litter bins	15
Street lights	6
Buses	1
Combating ASB	9
Combating Graffiti	6
Youth clubs	44
Police	18
Social Services	1
Fire service	7
None	13




ASB= Anti-social behaviour

IS THERE SOMETHING YOU WOULD LIKE TO ADD TO YOUR COMMUNITY?




WHAT ARE THE PROBLEMS IN THE COMMUNITY?

Anti-social behaviour	38
Fighting	25
Drugs	17
Litter	43
Gangs	10
Dogs mess	1
Homelessness	2




WHAT WORKS REALLY WELL IN THE COMMUNITY?

School	24
Pill Mill	22
Shops	13
YMCA	5
Kind/ helpful people	24
Police	10
Clubs	6
Doctors	5
Parks	4
Hospital	4
Social Services	1



WHAT ARE YOU REALLY PROUD OF IN THE COMMUNITY?


School	23
Park	19
Pill Mill	3
The People	15
The Regeneration	3
Art	7
Football	8
Mini Police	2
Police	4



WOULD YOU LIKE TO GET INVOLVED IN YOUR COMMUNITY?


Would you like to get involved in your Community?

219 responses



HOW COULD YOU GET INVOLVED IN THE COMMUNITY?

Litter picking	15
Join clubs	26
Support Community centres	6
Be respectful	35
Ask our parents	2
Design new parks	4



Atodiad 4 – Nodyn pwysig am ganiatâd gan gyfranogwyr, a thempled

Wrth wneud prosiect ymchwil yn y byd go iawn, rhaid cael caniatâd gan y cyfranogwyr (y bobl sy'n cymryd rhan). Mae hyn yn bwysicach fyth yng ngoleuni'r GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) sy'n rhoi mwy o gyfrifoldeb fyth ar unrhyw un sy'n casglu a thrin data personol.

Dylai unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn ymchwil dderbyn manylion llawn am beth y maen nhw'n cymryd rhan ynddo a beth fydd yn digwydd i'w gwybodaeth. Yr arfer gorau fyddai bod pob cyfranogwr yn gweld ffurflen ganiatâd yn egluro'r pethau hyn fel bod yr holl wybodaeth yn eu meddiant, ac yn llofnodi eu henw fel bod cofnod o'u caniatâd. Gallwch hefyd fod yn greadigol o ran sut yr eglurwch yr ymchwil, drwy fideo er enghraifft. Mae caniatâd llafar yn cyfrif, ond byddai angen i'r ymchwilydd gadw cofnod o hyn.

O gofio bod Darganfod Eich Llais wedi'i ddylunio fel prosiect ysgol, gallwch ganfod bod y polisïau, gweithdrefnau a / neu'r ffurflenni caniatâd ar gyfer hyn eisoes gennych. Ond os nad ydynt gennych, neu os yw'r plant yn eich grŵp eisiau ymestyn y prosiect y tu allan i gatiau'r ysgol a chwilio am atebion i broblem gymunedol, yna'n sicr bydd angen i chi ystyried y mater hwn. Mae hyn yn gyfle da i blant gael dysgu am bwysigrwydd caniatâd a thrin data mewn oes gynyddol fwy digidol lle mae mwy a mwy o ddata'n cael ei gasglu nag erioed o'r blaen.

Dyma enghraifft o ffurflen ganiatâd plentyn-gyfeillgar y gallwch ei defnyddio a'i haddasu yn eich ysgol.

Gwybodaeth a chaniatâd

Helo, fi ydy

Fi ydy

A fi ydy



Rydyn ni'n gwneud prosiect
ymchwil yn yr ysgol ac eisiau
siarad gyda chi i holi eich barn am



Os ydych yn fodlon siarad
gyda ni am eich barn, byddwn
yn gwneud arolwg neu
holiadur gyda chi. Mae hyn er
mwyn gallu holi eich barn am
bethau.

Byddwn yn cofnodi beth a
ddywedwch wrthyn ni. Bydd yn
ein helpu i wneud cyflwyniad
neu adroddiad i ddweud wrth
bobl eraill beth yw barn plant
ein hysgol am

**Os nad ydych yn deall rhywbeth, neu eisiau gofyn
cwestiwn, gallwch wneud hynny.**

Ffurflen Ganiatâd

Rwy'n fodlon siarad gyda

(rhowch enw'r plentyn / plant / grŵp sy'n gwneud yr arolwg)

i roi fy marn am

.....



Gwn y bydd y wybodaeth a roddaf yn cael ei defnyddio i wneud adroddiad neu gyflwyniad, ond ni fydd fy enw'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwnnw.



Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda

.....

(rhowch enwau'r bobl / sefydliadau fydd yn cael eu henwi yn yr adroddiad).

Efallai y byddwn yn rhannu'r adroddiad â phobl y tu allan i'n hysgol.

Mae popeth a ddywedaf yn gyfrinachol. Hynny yw, bydd yn cael ei gadw'n breifat oni bai fy mod yn dweud rhywbeth sy'n golygu fy mod i neu rywun arall mewn perygl.

Gwn y gallaf roi'r gorau i gymryd rhan ar unrhyw adeg, ac ni fydd neb yn gofyn pam nac yn fy ngorfodi i gario ymlaen.

Os ydw i'n teimlo'n drist, gallaf siarad gyda

.....

(rhowch enw'r aelod o staff priodol)



Enw

Llofnod

Oed Dyddiad

DIOLCH AM EIN HELPU NI!

